

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 514 · Tachwedd 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim

Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Ym mis Hydref cyhoeddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bod cynllun newydd yn cael ei lansio ar gyfer ardal y Carneddau. Sicrhawyd grant o £1.7 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cenedlaethol i gyflawni cynllun gwerth dros £4 miliwn am y 5 mlynedd nesaf. Mae'r ardal, sy'n ymestyn ar draws o Fethesda i Ddolgarog, ac i lawr o Gonwy i Gapel Curig, yn 220 km sgwâr.

Mae newid hinsawdd, patrymau ffermio, rhywiogaethau ymledol a phwysau ymwelwyr yn effeithio ar dirweddau bregus o bioamrywiaeth gyfoethog y ffridd a'r mynydd.

Mae gwybodaeth draddodiadol, enwau lleoedd a straeon sy'n cysylltu pobl â'r dirwedd mewn perygl o gael eu colli.

Dyma amcanion y cynllun

- Amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd prin, olion archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol a nodweddion tirwedd nodweddiadol.
- Cadw traddodiadau, gwybodaeth ac enwau lleoedd y dirwedd yn fyw.
- Annog defnydd tir cynaliadwy.
- Helpu cynulleidfa mor eang â phosib i ddarganfod, cofnodi, diogelu a dathlu'r Carneddau trwy ddigwyddiadau, gweithgareddau, hyfforddiant, dehongli newydd a gwell mynediad.
- Cynnal niferoedd yr ymwelwyr i'r ardal o fewn ffiniau cynaliadwy.

Roedd Kevin Williams, sy'n ffermio Bryn Eithin, Llanllechid yn croesawu'r cynllun, yn enwedig yr amcan o ddiogelu enwau a hanesion y

Carneddau, ond yn dweud ei fod eisiau gwybod mwy ynglyn â nifer yr ymwelwyr. Bydd mwy o wybodaeth i'w gael mewn cyfarfodydd fydd yn cael eu cynnal i drafod y cynllun yn y dyfodol agos.

Dyma ymateb Jen Temple Morris o fferm Tan y Graig, Gerlan:

"Fel teulu sy'n ffermio y Carneddau, rydym yn croesawu y prosiect cyffrous hwn fydd yn rhoi cyfleoedd i uno ni â'r "Ochr Draw". Mae cysylltiadau naturiol yn sgil ffermio defaid ar y mynydd ond efallai ddim mor amlwg o ran economi a phrosiectau cymdeithasol ehanach.

Dyma gyfle gwych i ddatblygu'r rhain a chael chwistrelliad o arian i'r gymuned. Gobeithio y bydd yn help i ddiogelu yr hyn sydd yma ac ein dyfodol ar y Carneddau i'r gehedlaeth sydd i ddod."



Nant Ffrancon (Diolch i Nigel Beidas)

Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 07815 093955

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

☎ 07588 636259

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

☎ 07867 536102

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

☎ 01248 601606

rml42@live.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA ☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH ☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygydd rhifyn y mis hwn gan
Rhys Llwyd.Y golygydd ym mis Rhagfyr fydd
Owain Evans, 5 Rallt Isaf, Gerlan,
Bethesda, Gwynedd, LL57 3TD.

07588 636259

E-bost: owain.evans1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn

dydd Sadwrn, 28 Tachwedd

os gwelwch yn dda.

Ni fydd angen casglu a dosbarthu
gan mai rhifyn digidol fydd hwn.**DALIER SYLW: NID OES****GWARANT Y BYDD UNRHYW****DDEUNYDD FYDD YN****CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD****CAU YN CAEL EI GYNNWYS.**Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Clwb Cyfeillion
Llais OgwanYn anffodus, oherwydd cyfyngiadau'r
Clo Mawr, ni fu'n bosib i ni gyfarfod i
dynnu gwobrau misoedd Awst, Medi,
Hydref a Thachwedd.Gobeithiwn fedru tynnu'r gwobrau a
chyhoeddi enwau'r enillwyr yn rhifyn
mis Rhagfyr.Byddem, wrth gwrs, yn croesawu
aelodau newydd i'r Clwb. Os yn awyddus
i ymuno cysylltwch a Neville Hughes ar
01248 600853. Diolch yn fawr.

Rhoddion i'r Llais

£20.00 Llewela O'Brien, John Llewelyn
a'r plant er cof am dad, taid a hen
daid annwyl, sef y diweddar Richard
Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth ar
ddiwrnod ei benblwydd, 17 Tachwedd.

£6.00 Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel.

£30.00 Er cof annwyl am Eira Wyn
Hughes gan Joe, Angharad a Joshua.

Diolch yn fawr.

Apêl am roddion i
gynnal Llais OgwanMae'r Cyfnod Clo oherwydd y feirws
Covid-19 wedi ein gorfodi i ohirio
cyhoeddi copiau caled o Llais Ogwan
am y tro. Fodd bynnag, 'rydym wedi
penderfynu parhau i gyhoeddi rhifynnau
digidol o'r papur am ddim ar wefannau
Llais Ogwan a Bro360. Ond, golyga hyn
nad ydym yn derbyn arian o werthiant
y papur a bydd hyn yn lleihau'r incwm
sydd ar gael i gynnal ein papur bro sydd
wedi cael ei gyhoeddi yn ddi-dor ers y
cychwyn ym mis Hydref 1974.Gobeithiwn bod pawb yn mwynhau
derbyn rhifynnau digidol o'r papur i'w
darllen pob mis. Byddem yn ddiolchgar
iawn o dderbyn unrhyw roddion gan ein
darllenwyr i'n cynorthwyo gyda'r gwaith
o gynnal y papur. Gallwch ddanfon eich
rhoddion at:

Mr Neville Hughes

14 Ffordd Pant,

Bethesda,

Gwynedd LL57 3PA

Diolchwn i bawb am eu cymorth a'u
cefnogaeth i Llais Ogwan.

Apêl Arbennig y Llais

- £50.00 Er cof am Caeron a Nancy
Roberts, Erw Faen, Tregarth.
- £20.00 Lowri W. Williams, Caernarfon.
- £40.00 Andre a Sylvia Lomozik, Rhos y
coed, Bethesda.
- £10.00 Margaret Fearnley, Helyg,
Talybont.
- £10.00 Jean Hughes, Bryn Awel, Talybont.
- £20.00 Angharad a Gerallt Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.
- £10.00 Dilys Parry, Bryn Tirion, Rhiwlas.
- £20.00 Moira Farnworth, Bryn Eglwys,
St. Anne's, Bethesda.
- £5.00 Anna Jones, Caernarfon.
- £10.00 Barbara Jones, Dolhelyg, Talybont.
- £10.00 Valerie Jones, Braich Talog,
Tregarth.
- £30.00 Janet ac Alun Davies, Penrallt,
Bethesda.
- £20.00 Daisy Jones, Maes y Garnedd,
Bethesda.
- £20.00 John Ffrancon Griffith, Abergele.
- £50.00 Ian T. Russell, Pentref Llandygai.

Diolch yn fawr i bawb ohonoch.



CYMRAEG

Beic Trydan Catrin Wager



Llun: Tom Simone

Diolch i Ogwen60 am y stori ac i Tom Simone am y llun.

Prynodd Catrin Wager, sy'n gynhorydd ar Ward Menai, Bangor ei beic trwy'r Cynllun Beicio i'r Gwaith. Mae hi bellach yn ei ddefnyddio i gymudo, ac yn dweud bod hyn wedi cael nifer o effeithiau cadarnhaol.

Dywed Catrin, sy'n byw ym Methesda fod ei beic trydan yn 'game changer' ac mae'n ei weld fel rhan allweddol o ddyfodol hapusach a gwyrddach.

Mae hyn yn cefnogi menter Partneriaeth Ogwen i annog mwy o bobl i feicio yn Nyffryn Ogwen, sy'n cael ei redeg trwy brosiect Dyffryn Gwyrdd.

Meddai: "Dwi'n gweithio fel cynghorydd sir, felly dwi'n gwario llawer iawn o amser mewn cyfarfodydd. Es i yn segur iawn, sydd ddim yn dda o ran iechyd a llesiant.

"Ro'n i 'di meddwl trio mynd ar fy meic yn fwy aml, ond i rywun sydd ddim yn ffit iawn, roedd y syniad o ddechrau allan yn eithaf 'daunting'.

"Roedd jest dod yn ôl o Fangor yn heriol, gyda'r allt.

"Nes i ffeindio allan bod 'na ffordd o gael beic trwy'r 'Cycle to Work Scheme', felly es i amdani a dwi'n meddwl bod o'n deg i ddeud bod beic trydan yn 'game changer' llwyr yn fy mywyd i.

"Dwi'n cofio pigo'r beic trydan i fyny o Fangor a reidio fo adre. Y bore wedyn, nes i reidio i Gaernarfon.

"Mae'n cymryd awr i deithio i

Gaernarfon, i gymharu hefo hanner awr mewn car, felly dim llawer mwy.

"Mae hyn yn golygu 'mod i'n defnyddio llai o betrol, felly mae'n dda i'r amgylchedd, yn ogystal ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

"Mae'n jest pleser hefyd; y bywyd gwych mae rhywun yn gweld... 'dw i wedi gweld gwiwer goch, bob math o adar...

"I mi, 'dw i'n gweld dyfodol lle dwi'n hapus gyda beic trydan a char cymunedol i fynd i siopa.

"Dw i'n meddwl bydd hynna'n fyd llawer hapusach a brafach."

Bydd Tom Simone, sy'n cael ei gyflogi fel Gweithiwr Llesiant a'r Amgylchedd ar gyfer Dyffryn Gwyrdd, yn cynnal diwrnod agored beiciau trydan yn Llys Dafydd, Bethesda yn y dyfodol agos.

Gallwch ddarganfod mwy am ba feiciau trydan a Phartneriaeth Ogwen yn <https://www.partneriaethogwen.cymru/> a'u tudalen Facebook.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Adnabod y Gân

Pan dach chi'n clywed cerddoriaeth ar Radio Cymru mae gennych chi syniad go dda pwy sy'n canu, er enghraifft, Bryn Fôn, Elin Fflur ac os dach chi'n ddigon hen, Edward H Dafis. Ond nid y fath yna o gerddoriaeth yw'r unig fath dach chi'n ei glywed mewn diwrnod. Sut ydach chi efo caneuon yr adar? Os ydach chi fel fi fydddech chi ddim yn rhy dda. Gresyn nad oes DJ yna i gyflwyno fel "A dyma, yn rhad ac am ddim, y robin goch i ganu 'Cheap, Cheap!'"

Rhestr go fyr yw'r caneuon adar dw i'n adnabod sef - ysguthan, pioden, y fwyalchen, sgrech y coed, brain a'r robin goch. Tydi hynny ddim yn ddigon da. Roedd Daniel Jenkins Jones yn arbennig ar y rhaglen Natur a Ni wrth gyflwyno cân aderyn bob wythnos ac esbonio sut i'w gofio. Er i mi drïo'n galed doedd hynny ddim yn gweithio i mi, yr unig un alla i gofio yw'r robin goch.



Ddoe pan oeddwn i wedi mynd am dro cyn i'r haul godi roeddwn yn clywed y robin goch ym mhob man, bron fel petai yn fy nilyn. Yn ogystal roedd llawer o ganeuon adar eraill hefyd. Tybed os dw i'n troi'r broblem wyneb i waered a chanolbwyntio ar un o'r caneuon eraill a thrio ei glywed mewn gwahanol lefydd yn ystod y daith? Gwneud yr un peth y tro nesaf, a'r nesaf am wythnos gyfan tan i mi fod yn hollol gyfarwydd â'r gân wedyn chwilio am y canwr. A fydd hynny'n ffordd well? Treulio wythnos neu ddwy i sicrhau mod i'n ddigon gyfarwydd wedyn mynd am y nesaf.

Petaswn i ddim ond yn dysgu pedwar newydd bob blwyddyn mi faswn i wrth fy modd!

Beth amdanoch chi? Os dach chi eisïau gwneud yr un peth, ewch allan awr cyn iddi wawrio i osgoi a swm y drafnidiaeth a mwynhewch!

Mae teithiau Cymdeithas Edward Llwyd wedi ail ddechrau ond ar y funud mae cyfyngiadau oherwydd amgylchiadau Covid.

Edrychwn ymlaen am ddyddiau gwell.
Cadwch yn ddiogel
Rob Evans

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Llyfr glas Nebo

Y mae Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Coch Hergest yn lawysgrifau hynaf sydd gennym yn yr iaith Gymraeg. Bellach mae gennym Lyfr Glas Nebo a enillodd y Fedal Ryddiaith i Manon Steffan Ross yn yr Eisteddfod Genedlaethol y 2018. Mae'r nofel yn hynod boblogaidd ac wedi gwerthu yn dda. Bellach mae'r llyfr wedi ei gyfeithu i'r iaith Bwyleg a chlywais si fod poibilrwydd iddo gael ei wneud yn ffilim yn America. Pob dymuniad da iti Manon.

Dathlu Penblwydd

Yn ystod Mis Hydref fe ddathlodd Ken Jones, Hafod Lon, benblwydd arbennig, gan gyrraedd oed yr addewid. Gobeithio i chi gael hwyl ar y dathlu.

Yn ogystal fe ddathlodd Mrs Nesta Carrigle ei phen blwydd yn 100 oed, fe'i magwyd yn Rhes Uchaf ac yn fodryb i Einir, Ffiolau'r Grug. Mae'n debyg mai hi yw'r hynaf o'r rhai a anwyd ac a fagwyd yn y pentref. Bu'n athrawes am flynyddoedd ac yn byw ym Mhorthaethwy gyda'i diweddar ŵr. Bellach mae yng nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn. Anfonwn ein cofion ati.

Cydymdeimlo

Brawychwyd y pentref gan farwolaeth Alun Owen yn dilyn damwain erchyll. Roedd yn enedigol o'r pentref ond wedi symud i Fethesda. Roedd yn ŵr i Ceri a thad i'r efeilliaid, Cêt ac Anni, yn fab i Cathy a'r diweddar Iolo ac yn frawd hwyliog i'w frodyr a'i chwaer ac yn ffrind i lawer. Roeddem yn ei adnabod fel Alun Bronnydd ond i'w gyfoedion Al Bonc ydoedd., cyfeiriad at gartref ei dad yn Y Felinheli. Roedd yn gweithio i Open Reach ac yn ôl ei gydweithwyr yn un cymwynasgar ac yn dynnwr coes. Bu'r angladd yn Eglwys Glan Ogwen a derbynwyd arian er cof tuag at Dîm Achub Mynnydd DyffrynOgwen

Er cof annwyl am 'Alun Bronnydd'
Bu'n hwyliog ers yn hogyn - haul ei wên
Yn oleuni sydyn,
Ond daeth braw y glaw'n y glyn,
Dagrau'n lle hwyliu Alun.
AG
Hydref 2020

Noson Wobrwyo rhithiol Ysgol Dyffryn Ogwen

Cafodd y canlynol wobrau ar y noson, Osian Rowlands, Gwobr yr Adran Gymraeg, yr Adran Mathemateg a Gwobr Ymdrech gorau Cyfnod Allweddol 3. Bu'r ddwy chwaer o Garreg ym Garth, Megan a Gwen yn llwyddiannus hefyd, Derbyniasant Wobr Hyfforddiant a Gwobr Bagloriaeth Cymru. Yn fuddugohefyd

roedd Georgio Brown Bron y Waun a Samuel Valentine, Cae Glas.
Llongyfarchiadau i chi i gyd.

Ar y Radio

Yn ddiweddar bu Cynrig Hughes, Rallt Uchaf yn westai ar raglen Dei Tomos. Bu'r ddau yn trafod enwau caeau ac y mae Cynrig wedi ymchwilio i'r enwau yma. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwybod am yr enwau yma a ble y maent; mae stori i bob un dwi'n siwr. Testum darlith arall Cynrig?

Merched y Wawr

Rydym yn falch fod y mwyafrif o'r aelodau wedi ymaelodi er gwaethaf y ffaiht nad ydym wedi cyfarfod ers Mis Mawrth. Mae nifer ohonom wedi bod yn brysur gyda'r cwis blynyddol. Gyda'r seffyllfa fel y mae ar y funud mae'n debyg na fyddwn yn cyfarfod tan y flwyddyn nesaf a dwi'n siŵr y bydd cryn dipyn o sgwrsio bryd hynny, cofion atoch i gyd,

Priodas

Ar y 10fed o Hydref yn Eglwys Sant Cedol priodwyd Catherine Louise Roberts, Rhandir Mwyn, Caeau Gleision â Mark Andrew Williams o Caergeiliog. Y morynion oedd kim Roberts, Fleur Ellis, Yasmin Wilcox. Ella Roberts-Jones a'r ddau was oedd Robyn ap Geraint a Ryan Hughes. Y tywyswyr oedd Ian Williams a Dyfan Hughes. Modryb y briodferch, Y Parchedig Dr Carol Roberts oedd yn gwasanaethu. Roedd y bwyd yng Nghlwb Rygbi, Bethesda ac yn ôl pob sôn cafwyd amser da iawn yno. Fe fydd Catherine a Mark yn ymgartrefu yng Nhaergeiliog, Ynys Môn. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch.



Ennill Tlws

Mae Sammy Jones, Bro Rhiwen yn hoff iawn o bêl droed ac yn aelod o dîm Bangor Saints a derbyniodd Dtlws y Rheolwr. Gwelir ef yn y llun gyda'r rhelowr, Jacob. Da iawn ti Sammy a phob hwyl i ti yn y dyfodol.

SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen.
Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Llundiau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2),
Dydd Iau /Gwener (10-5)
a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

SAMARIAID

Mac
Linell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dbyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Porthaethwy Benllech
(01248) 723106 (01248) 719517 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Wel, dyma fis Tachwedd efo ni'n barod, a ninnau newydd brofi cyfnod arall dan glo! Gweddïwn y bydd yn fodd i atal lledaeniad y feirus melltigedig, sydd wedi llwyddo i drawsnewid bywyd pob un ohonom mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Unwaith eto, daliodd plant a phobl ifainc y pentref at ganllawiau'r Llywodraeth yn dda iawn. 'Fu fawr neb yn y Cae Chwarae, na hyd y strydoedd, gydol yr amser, a rhaid inni gofio bod y cyfnod clo hwn yn cynnwys Calangaeaf a Noson Tân Gwylt.

Y bobl hŷn sydd wedi 'i chael hi ychydig yn anoddach y tro hwn, gan fod ymweld â ffrindiau am sgwrs a phanad (neu ambell i sleisen o dôt) allan ohoni'n llwyr. Ond mae'n werth yr aberth, am gyn lleiad o amser, i gadw pawb yn iach.

Daliwn i gredu y daw pethau'n well ryw ddydd.

Dathlu

Dathlodd Matthew Parry, 17 Dolhelyg, ei benblwydd yn 18 oed y mis diwethaf, a'r un diwrnod dathlodd Mrs Sandra Davies, 28 Cae Gwigin, hithau benblwydd arbennig; wedi pasio ei deunaw ers dipyn go lew. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch!

Llongyfarchiadau cynhesaf i Llew ac Enfys Jones, 2. Cae Gwigin, ar dathlu 72 mlynedd o fywyd priodasol ar Hydref 6ed. Mae'r braf gweld y ddau yn dal ati mor dda, er gwaetha'r holl anhawsterau a ddaeth i'w rhan eleni.

Ysbyty

Treuliodd nifer o drigolion Talybont gyfnod yn yr ysbyty yn ystod mis Hydref.

Rydym yn cofio'n arbennig at deulu 13. Dolhelyg. Mae Keith a Sandra wedi profi amser gwirioneddol anodd yn ddiweddar. Daeth Idris Thomas adref o Ysbyty Gwynedd yr wythnos o'r blaen. Mae yntau'n gwneud ei orau i ymdopi o ddydd i ddydd ac, efo chryn dipyn o gymorth, mae'n llwyddo'n rhyfeddol. Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofon cynhesaf at Mrs Sheila Owen (Redfern, gynt), Millbank, Dolhelyg, a gafodd driniaeth yn Ysbyty Gwynedd ar ddechrau mis Tachwedd. Brysya wella, Sheila!

I unrhywun yn yr ardal sy'n teimlo'n unig, yn drist, neu o dan y don y dyddiau hyn, cofwch fod digon o bobl o'ch cwmpas i gael sgwrs dros y ffens (heb dorri'r un rheol) neu dros y ffôn. Peidiwch â bod ofn gofyn am help. Dydi'r Coronofeirws wedi effeithio dim ar gymwynasgarwch pobl Talybont. Rydym yn ffodus iawn yn ein cymuned.

Profedigaeth

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar annwyl Dennis Pritchard a fu farw'n dawel ar Hydref 19eg yn ei gartref, 15 Bro Emrys, yn dilyn cystudd hir a ddiodeffodd yn ddewr a di-rwgnach. Dot, rydym yn meddwl yn arbennig amdanat ti, a'r ddau ohonoch ar drothwy dathlu'ch Priodas Aur. Mae'n gysur mawr, 'dw i'n siwr, bod cynifer o'r teulu o'th gwmpas ar adeg mor drist yn eich hanes chi i gyd.


Deallwn fod Stephen Roberts, 58 Bro Emrys, wedi colli ei dad yn ddiweddar.

Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu yn eu galar.

Calendrau 2021

R'wyf wedi derbyn nifer o galendrau 'Llais Ogwan' gan Neville. Byddaf yn siwr o alw heibio pawb, unwaith y cawn ganiatâd i grwydro, ond pa bryd fydd hynny, deudwch? Efallai mai'r ffordd orau, os ydych chi eisio calendr, fyddai rhoi tonc ar 01248 353500, neu anfon nodyn bodyn ar 07765600822. Ymddiheuriadaf am unrhyw anhawster.

Yn yr Ardd



Yn yr ardd flodau

Nid yw'n rhy hwyr i blannu cennin Pedr. Rŵan yw'r amser i blannu tiwlip.

Gallwch blannu hyacinth mewn potyn ar gyfer y gwanwyn. Plannwch goed rhosod.

Codwch y dahlia, gladioli a'r begonia.

Cuddiwch beth o'r celyn sydd ag aeron arnyn nhw, rhag i'r adar gael y cyfan cyn y Nadolig.

Yn yr ardd lysiau

Codwch y pannas, ond bydd eu blas yn well ar ôl iddyn nhw gael barrug.

Gallwch rannu riwbob wedi iddyn nhw gysgu dros y gaeaf.

Dyma'r amser i wasgaru tail dros y gwely llysiâu er mwyn iddo bydr'u'n dda dros y gaeaf.

Cyffredinol

Gallwch blannu mafon rŵan er mwyn cael cnwd blasus yn yr haf.

Edrychwch ar y ffrwythau sydd wedi eu storio, rhag ofn bod rhai drwg yn eu canol.

Gallwch dorri ychydig ar y coed afalau a'r gellyg.

Capel Bethlehem

Oedfaon

Llwyddwyd i gynnal oedfa dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard, ar bawn Sul 11 Hydref, ond oherwydd cyfyngiadau'r Clo Mawr bu raid i ni ganslo ein trefniadau ar gyfer oedfa 8 Tachwedd. Gobeithio bydd popeth yn iawn ar gyfer 13 Rhagfyr. Diolchwn i'n gweinidog gweithgar, y Parchedig John Pritchard, nid yn unig am yr oedfaon a gawn ar sianel "Youtube" Capel Tanycoed bob bore Sul, ond hefyd yr oedfaon ar Zoom ar gyfer yr Ofalaeth bob nos Sul am 5 o'r gloch.

O ran diddordeb

Mae'r llyfr hwn wedi ei gyflwyno i lyfrgell Bethesda, gan Andre Lomozik, er budd i drigolion yr ardal sydd a diddordeb mewn hanes lleol, ac yn enwedig hanes y bechgyn a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914 - 1918.

Bwriad y llyfr yw canoli hanes y bechgyn mewn un man er mwyn hwyluso ymchwil y sawl fydd a diddordeb yn yr hanes i'r dyfodol.



JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Llygad am lun


Difyr oedd gweld Siwan Haf, Bwthyn Cefn Braich gynt, ar y rhaglen 'Ffilmiau Ddoe' ar S4C yn ddiweddar. Sgwrsio roedd hi am ffilmau ei thaid, y diweddar Dr. John Glyn Jones, Brynsiencyn, sydd bellach i gyd dan ofal Archif Sgrin a Sain Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Un o Nefyn oedd taid Siwan, a magodd ddiddordeb mewn ffilmau *ciné* am fod gan ei ewyrth, oedd yn fferyllydd yn y pentref, gamera o'r fath. Byddai ei Yncl Robin yn cofnodi hanes y pentref a'r ardal, gan gynnwys digwyddiadau fel ymweliad Lloyd George â Sioe Nefyn a lansio bad achub newydd ym Mhorthdinlaen, ar ffilm. Pan fu farw ei ewyrth, etifeddodd John Glyn ei offer tynnu lluniau i gyd a dyna ddechrau ar ddiddordeb oes.

Yn gwmni i Siwan yn y stiwdio roedd Dilwyn Morgan, yntau hefyd â'i wreiddiau yn Nefyn. Yn ogystal â ffilmau difyr o Bwllheli

gan fodryb Dilwyn, cafwyd cip ar luniau o daid a hen daid Siwan yn chwarae golff ar gwrs enwog Morfa Nefyn yn ogystal â golwg ar rai o gymeriadau Môn. A gwelwyd ei mam, yn blentyn dwyflwydd, yn gwirioni ar ôl derbyn tŷ dol yn bresant!

Roedd bod o flaen y camera yn brofiad reit wahanol i Siwan gan mai y tu ôl iddo y bydd fel arfer. Bu'n gweithio i Cwmni Da, Caernarfon ers iddi raddio yn 2000, gan dreulio cyfnod yng Nghaerdydd ar dro fel cynhyrhydd trêls i S4C, cyn dychwelyd i'r gogledd lle mae wedi ymgartrefu yn Y Felinheli, ac yn ôl at Cwmni Da. Mae bellach yn gweithio fel cynhyrhydd/cyfarwyddwr i'r cwmni ac yn gyfrifol am gyfresi fel 'Ffit Cymru' a 'Deuawdau Rhys Meirion'. Byddai ei thaid yn sicr wrth ei fodd ei bod wedi etifeddu ei ddiddordeb, a'i ddawn, y tu ôl i'r camera!



Da iawn Caffi Seren

Ar ddiwrnod cyntaf yr hanner tymor, roedd John Bullock, perchennog Caffi Seren ym Methesda wedi cyhoeddi y byddai yn darparu pryd am ddim i unrhyw blentyn oedd mewn angen.

Roedd y cynllun, a gafodd ei gynnal ar y cyd gyda Siôn Thomas o gwmni '*Just Mortgages*', yn cychwyn o Hydref 26 ac yn parhau drwy gydol gwyliau'r hanner tymor.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymroi i ymestyn y ddarpariaeth o brydau bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol, dywedodd Siôn Thomas bod bylchau yn parhau i fodoli ac

mewn cyfnod mor ansicr, dylai neb fod yn poeni am fwydo eu plant.

"Os oes yna rywbeth fedrwn ni neud i helpu, yn enwedig hefo'r gymuned ym Methesda sydd mor agos beth bynnag, wel pam ddim?"

Mae'r mentergarwch yn cynnig "rhywfaint o obaith i deuluoedd sydd yn dioddef," yn ôl y Cynghorydd lleol, Rheinalt Puw.

Dywedodd John Bullock wrth Llais Ogwan bod 80 o brydau wedi cael ei rhoi am ddim yn ystod wythnos hanner tymor.

Diolch i John a Siôn.

Gwelwyd y stori ar Golwg360

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS.
01248 605582 a 07887624459
henbarc13@gmail.com

Llongyfarchiadau i Linda a Dilwyn Pritchard, Ystad Bron Arfon, sy'n nain a thaid am y tro cyntaf wedi i Huw ac Angharad gael hogan fach o'r enw Siwan Eysyllt yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlwn â Sheila Hall, Ffordd Tanybwllch am i'w wŷr Morgan Hughes, Tregarth farw ar ôl cyfnod hir o salwch.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Mrs Cathy Owen, Hen Barc a'r teulu I gyd yn eu profedigaeth diweddar.

Am fod y gwaith o wella tai cymdeithasol Maes Bleddyn wedi gorffen, gofynnodd rhai o'r trigolion am faes parcio ger rhif 60 ond gwrthododd cymdeithas tai Adra. Am nad oedd modd cynnal Ysgol Sul Capel Carmel, cyflwynodd Helen Williams waith i'r plant am fisoedd Medi a Hydref ac yn hwyrach ymlaen, waith iddynt ei wneud yn ystod misoedd Tachwedd a Rhagfyr. Yn yr un modd sicraodd hi fod y grŵp Dwylo Prysus yn paratoi posteri (un pob wythnos) i'w rhoi yn hysbysfwrdd y capel ar y Stryd Fawr. Diolchwn iddi am hyn.

Dymuna Mrs Glenys Roberts, Hen Barc longyfarch Mr Michael Wigston ar ei urddo yn uwch farchog yn Llundain. Mae Michael wedi cael gyrfae eang gyda'r Llu Awyr [R.A.F.] fel 'Air Marshall' yn Whitehall. Mae Glenys mewn cysylltiad gyda mam Michael sef Pam. Mae ei fam yn falch iawn ohono ac yn dymuno hysbysu'r newyddion da i bawb sy'n cofio Michael, yn enwedig ei gyn athrawon yn Ysgol Llanllechid.

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATL.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eglwys Sant Tegai, Llandygai

Cyfarchion i ddarlennwyr y Llais oddi wrth pawb yn eglwys St Tegai.

Cofio'r Aberth

Mewn seremoni syml a phreifat oherwydd rheolau Cofid gosodwyd torch pabi coch y Lleng Brydeinig wrth borth Eglwys Llandygai. Bu cyfle i gofio aberth yr holl blwyfolion a gollodd eu bywydau oherwydd rhyfel. Gosodwyd torch arall ar y gofeb o flaen y brif fynedfa i Barc Penrhyn ar sgwâr y pentref. Diolch i John Bagnall ac Edmond Douglas Pennant am y trefniadau.

Gwaith Atgyweiro yn parhau

Ar ôl dros bum mlynedd o weithgareddau codi arian amrywiol a chefnogaeth y gynulleidfa a'r gymuned llwyddwyd i godi dros £65,000 i dalu am y rhan gyntaf o waith atgyweiro ein heglwys hanesyddol. Dechreuwyd y gwaith ym mis Mawrth 2020 cyn yr argyfwng iechyd ond mae rheolau Cofid, tywydd drwg ac amgylchiadau eraill

wedi arafu cynnydd. Daeth mwy o ddiifrod i'r amlwg ar y tô, yn y festri ac yn y clochdy.

Fel canlyniad, ni fydd yn bosib cynnal unrhyw wasanaeth yn yr eglwys am gyfnod hir ac am y tro cyntaf ers blynyddoedd ni fydd gwasanaeth traddodiadol o Naw Llith a Charol yng ngholau kannwyll ym mis Rhagfyr 2020.

Fel pob elusen, ni chafwyd unrhyw weithgaredd codi arian ers 9 mis fel stondinnau, cyngherddau, nosweithiau barddoniaeth, boreau coffi, Darlith Goffa Archesgob John Williams, heb sôn am y Bingo a'r Arddwest Tair Eglwys.

Rhoddion Apêl y Nadolig

Derbynnir yn ddiolchgar iawn unrhyw gyfraniad ariannol y Nadolig gan swyddogion yr eglwys cyn Rhagfyr 17eg, os yn bosibl. Sieciau trwy'r post yn daladwy i 'Eglwys Llandegai' neu arian parod mewn amlen gyda'ch enw, eich cyfeiriad llawn a chôd post. Gellir ffonio am fwy o wybodaeth am daliadau uniongyrchol drwy'r banc neu am unrhyw fater arall.

Diolch i bawb yn y gynulleidfa fechan sydd yn cyfrannu yn reolaidd ac i fudiadau ac unigolion hael eraill yn y gymuned sydd yn cefnogi'r gwaith sylweddol o gynnal a chadw yr eglwys a'r fynwent yn ogystal â'r Prosiect Atgyweiro.

Gellir gyrru cyfraniadau i unrhyw un o'r

swyddogion canlynol. Rydym yn disgwyl apwyntiad Ficer a Gweinyddwr newydd i eglwys Bro Ogwen ers i'r Parchedig a Mrs John Matthews symud i blwyf newydd yn Seland Newydd yn yr Hydref 2019:

Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)
Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai

Yn ystod cyfnod anodd y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ac yn ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwys eraill Bro Ogwen. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yn wythnosol drwy ebost. Croeso i chi oleuo kannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdd a dweud gweddi gyda ni.

Tra mae eglwys Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Deon Gwlad, Y Parchedig Lloyd Jones, Clynnog 01286660656 neu â'r Archddiacon, Y Hybarch Mary Stallard, Llandudno ynglŷn ag unrhyw fater arall.

Mae'r ddwy ohonom wedi bod gyda'n gilydd erioed.

Felly rydyn ni wedi dysgu CPR er mwyn ein gilydd.

Gwylwch ein fideo hyfforddi ar llyw.cymru/achubbywydcymru



Dysgwch CPR a sut i ddefnyddio di-ffib, i gyffwrdd â bywyd.



Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

Penblwyddi arbennig

Bu gŵr a gwraig yn cael pen-blwydd arbennig yn Stryd y Ffynnon yn ddiweddar felly digon o esgus i ddathlu! Penblwydd hapus iawn i Berwyn a Nia Williams - un yn 60 a'r llall yn 50. Gobeithio i chi gael amser da yn dathlu'r achlysuron arbennig yma er gwaetha cyfyngiadau'r cyfnod clo.

Un arall fu'n dathlu pen-blwydd 50 oedd Menai Morris Gwaen Gwiall - pen-blwydd hapus iawn i tithau hefyd.

Deallwn nad ydi Menai wedi bod yn teimlo'n rhy dda yn ddiweddar felly dymunwn wellhad buan i ti hefyd.

Llongyfarchiadau

'Roedd 'na reswm arall i ddathlu yng nghartref Nia a Berwyn Williams. Derbyniodd eu mab, Alun Ffrancon Williams wobwr yn rhodd gan Gyngor Cymuned Bethesda yn noson wobrwyo disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen. Derbyniodd y wobwr er clod am ei waith celf arbennig. Mae Alun newydd orffen ym mlwyddyn 11 yn Nyffryn Ogwen ac wedi cychwyn yng Ngholeg Menai Llangefni erbyn hyn. Pob lwc i ti ar y cyfnod newydd yma yn dy fywyd Alun.

Dymuno'n dda:

Rydym yn cofio at Dafydd (Dei) Fôn Stryd y Ffynnon yn fawr iawn wedi iddo dorri ei goes a'i ffêr ar ôl syrthio yn yr ardd. Mae wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ond wedi cael dod adref i Gerlan erbyn hyn.

Mae Dafydd (Dei) Fôn yn adnabyddus i'r mwyafrif ohonom yn yr ardal a thu hwnt wrth iddo gerdded a beicio o amgylch y Dyffryn yn rheolaidd, mae'n cefnogi sawl cymdeithas a gwefan ac yn brysur iawn yn y gymuned yn gyffredinol.

Er nad yw'n gallu gadael y tŷ ar hyn o bryd, mae ganddo ddigon i'w gadw'n brysur meddai o. Dwi'n siŵr y bydd Ann yn ddigon prysur hefyd yn gofalu amdano.

Brysia wella Dei.

Dymunwn wellhad buan i Gwen a Dewi Griffith Ciltrefnus. Mae'r ddau ohonynt wedi treulio amser yn yr ysbyty ond mae'r teulu yn falch iawn o'ch cael adref erbyn hyn. Gobeithio y bydd y ddau ohonoch yn cryfhau dros yr wythnosau nesaf ac y byddwn yn eich gweld o gwmpas Gerlan eto. Cofion cynnes at y ddau ohonoch.



Adfer Gwasanaeth Bws Gerlan

Yn dilyn yr erthygl yn y Llais mis diwethaf yn pryderu am wasanaeth bws Gerlan, mae'n newyddion da cael gwybod bod cwmni bysiau Arriva wedi gwrando ar gri trigolion lleol i sicrhau y bydd gwasanaeth bws yn teithio o Fangor i Gerlan o'r cyntaf o Dachwedd ymlaen.

Mae ein diolch yn fawr i'r Cyngorwyr Paul Rowlinson a Rheinallt Puw. Gyda chefnogaeth eu cyd aelodau Plaid Cymru, Aelod o Senedd Cymru, Siân Gwenllian dros Arfon a'r Aelod Seneddol, Hywel Williams, maent wedi gallu rhoi pwysau ar gwmni bysiau Arriva i ail gyflwyno'r gwasanaeth.

Ar ôl y cyfnod clo presennol, bydd y bws yn teithio i Gerlan bob dwy awr yn ystod y dydd a fydd yn help garw i bobl yr ardal yma. Diolch i bawb am y cydweithio.

Cydymdeimlo

Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd i deulu Richard a Rhian Ogwen, Yr Ardd Fawr, Gerlan ac yn arbennig i'w merch Ceri a'i phlant Ani a Cêt. Mae marwolaeth Alun, gŵr Ceri, wedi dychryn y gymuned i gyd. Mae pawb yn cofio atoch yn fawr fel teulu ac yn gyrru nerth a chofion cynhesaf atoch i gyd. Cofion hefyd at Cathy, mam Alun, a'r teulu.

Diolch

Dymuna Dafydd Fôn ac Ann, Stryd y Ffynnon, ddiolch o waelod calon i bawb am eu caredigrwydd, a'u dymuniadau gorau ar achlysur damwain Dafydd yn ddiweddar. Diolch arbennig iawn i Meurig Griffith am ei gymorth gwerthfawr ddiwrnod y ddamwain. Diolch yn fawr!

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723

Ffacs: 605068

Jam Cartra'

ANGHARAD a NEVILLE HUGHES,
14 Pant, Bethesda. (01248 600853)

Stoc Amrywiol ar gyfer y Nadolig

Mwyar Duon* Mwyar Duon ac Afal*
Mefus* Mafon ac Afal* Llus a Riwbob*
Cyrrens Duon* Riwbob a Sunsur*
Eirin Fictoria ac Oren* Cwsberis*
Jeli Mwyar Duon ac Afal*
Jeli Cyrrens Coch

(Prisiau: £1.30; £2.00; £2.70) hefyd
Pecynnau Anrheg Nadolig - £5.00

Os nad yw'n bosibl i chi gysylltu â Siop Ogwen neu wefan Cadwyn Ogwen, ffoniwch y rhif uchod.

Gallwn ddanfôn yn lleol.
(Elw at elusennau ac achosion yn Nyffryn Ogwen)

Galw am Fwy o Ofalwyr yng Ngwynedd



Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo dros £700,000 i gyflogi mwy o ofalwyr i gefnogi pobl fregus yn y sir dros y misoedd nesaf. Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed gennych chi os ydych chi'n teimlo y gallech chi wneud cyfraniad i'r maes yn lleol.

Yn sgil pandemig Covid-19 mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd llawer mwy o alw am wasanaethau iechyd a gofal yng nghymunedau Gwynedd, ac am gychwyn ymgyrch Galw Gofalwyr i recriwtio mwy o staff i'r maes.

Yn nghyfarfod diwethaf Cabinet Cyngor Gwynedd clywodd cynghorwyr fod darparwyr gofal y sir wedi ymdopi'n rhyfeddol hyd yma. Ond gydag ail don ar y gorwel bydd gwasanaethau gofal cartref, cartrefi preswyl, a chefnogaeth i unigolion ag anabledau dysgu yn dod o dan cryn bwysau dros y misoedd i ddod.

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd sydd hefyd yn Aelod Cabinet am faes Gofal: "Rydym fel Cyngor wedi penderfynu clustnodi mwy o arian nag arfer ar gyfer y sector gofal yn y sir er mwyn ymateb i gynnydd anochel mewn galw am wasanaeth gofal cymdeithasol.

"Ein prif gonsyrn ydi diogelu pobl Gwynedd, gwarchod ein staff, a llenwi bylchau staffio sy'n ymddangos o ganlyniad i Covid-19."

Mae'r Cyngor yn lansio ymgyrch sy'n anelu i recriwtio

dwsinau o weithwyr newydd i'r maes, yn rhan amser ac yn llawn amser dros yr wythnosau nesaf.

Ychwanegodd y Cynghorydd Dafydd Meurig: "Bydd yr ymgyrch Galw Gofalwyr yn targedu unigolion sydd yn awyddus i wneud gwahaniaeth, cefnogi pobl yn eu cymunedau, newid neu ddatblygu gyrfa yn y maes iechyd a gofal, neu gamu mlaen i helpu mewn cyfnod o argyfwng.

"Mae hwn yn gyfnod anodd a chythryblus i lawer, gyda nifer cynyddol o bobl yn wynebu lleihad yn eu hincwm neu'n cael eu gwneud yn ddi-waith.

"Gallai troi at yrfa yn y maes dros dro, neu'n fwy parhaol yn y sector iechyd a gofal, fod yn cynnig atebion i ni fel Cyngor, ac i ddynion a merched yng Ngwynedd sydd mewn sefyllfa ansicr ar hyn o bryd. Y cymhwyster pwysicaf ydi diddordeb mewn pobl ac awydd i helpu a gwneud gwahaniaeth yn eu hardal leol, ac mi fyddem yn falch iawn o glywed gennych."

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig hyfforddiant, telerau gwaith da ac oriau cyson, a'r cyfle i helpu trigolion bregus y sir i fyw bywydau mor llawn a phosib. Bydd gwaith llawn amser a rhan amser ar gael gyda chyfleon i gychwyn yn syth.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn swydd yn y maes gofal gyda Chyngor Gwynedd gysylltu â Gill neu Elen am sgwrs ar 07384876908 neu e-bostio: gofalu@gwynedd.llyw.cymru

Enwau Dyffryn Ogwen

5

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu. Trafodir enwau sy'n dechrau gyda'r llythrennau P i S y mis hwn.)



P

Pandy - adeilad i bannu brethyn
Pant y Cyff - pant lle lleolid cyffion? / pant gyda rhyw foncyff arbennig? / pant ym meddiant rhyw berson dwl iawn?

Pant Ffrydlas - pant yr afon Ffrydlas
Pant y Gwair - pant lle tyfid gwair
Pant Hwfa - pant ym meddiant Hwfa
Parc Moch - cae wedi ei amgau lle cedwid moch
Parc Newydd - o'i gymharu â Hen Barc
Pencoed - ym mhen draw'r coed
Penisa'r nant - ceg y nant, gwaelod y nant
Penrhyn - trwyn o dir yn ymestyn allan i'r môr, neu i dir gwlyb

Pentre - pen draw'r fferm
Pentre'r felin - pen y fferm ble'r oedd y felin
Penybronnydd - pen draw/ pen uchaf ochrau'r brynau
Penybryn - **ystyr amlwg**
Plas Ucha - y lle uchaf (daearyddol)
Powls - **ansicr ond yr awgrym mai llygriad o St Pauls, Llundain ydyw**, a byddai'n derm difriol.

Pwll Budr - y daliad o gwmpas y pwll yn yr hendre
Pen y groes - ble mae dwy ffordd/ dau lwybr yn croesi
Penylan - uwchben glan yr afon
Perthi Corniog - llwyni ar ffurf cyrn simnai

R/ Rh

Rachub - tir a achubwyd o'r gwyllt, i'w ddefnyddio
Rallt - ar ochr bryn
Rhos Uchaf - tir gwael uchaf (o'i gymharu ag un is)

S

Sling - darn bychan o dir, trionglog, fel arfer
Sychnant - ffrwd sy'n sychu'n aml yn yr haf



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Gwellhad

Mae amryw byd ohonoch yn pentref a'r cyffiniau wedi bod yn wael yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion atoch i gyd boed yn eich cartref, mewn Ysbyty neu Gartref Gofal. Mae yn amser dyrys iawn a'n gobaith ni i gyd yw parhau i fod yn amyneddgar, gwranddo ar gynghorion y Senedd yng Nghaerdydd ac aros adre ac o fewn ein cymuned glos yma yn Nyffryn Ogwen.

Merched y Wawr

Oes, mae na gangen o Ferched y Wawr yn y pentref ond ar hyn o bryd ni allwn ddod at ein gilydd oherwydd y Cofid. Diolch i Alison, Myfanwy ac Andrea am gysylltu hefo pob un aelod lleol ac am sicrhau y byddwn yn dod at ein gilydd eto unwaith pan fydd yn saff i wneud hynny. Diolch hefyd am ddsbarthu y Cardiau Nadolig oedd wedi'i harchebu ac am y llyfr lliwgar a deniadol o risetiau, sef Curo'r Corona'n Coginio. Os na chawsoch chi eich copi mae rhai ar werth yn ein siopa llyfrau lleol ac yn werth chweil.

Profedigaeth

Trist iawn oedd y newyddion am farwolaeth bachgen ifanc o'r pentref sef Morgan Wynne Hughes, Garw Ganol, neu Mogs

fel y gelwid ef gan lawer. Bu farw Mogs yn Ysbyty Plant Birmingham ar Hydref 24 ac yntau yn 14 mlwydd oed. Bu'n fachgen dewr iawn a threuliodd lawer o'i amser mewn Ysbyty. Anfonwn ein cydymdeimlad gyda'i rieni Adrian a Mandy, ei frawd Steffan, ei daid a nain yn Rachub sef Elwyn a Sheila gan gofio am ei ddiweddat nain, Margaret. Cofiw'n hefyd am ei lu ffrindiau gan ei fod yn fachgen mor annwyl a phoblogaidd. Mae'r ardal i gyd yn cydymdeimlo hefo chi fel teulu yn eich colled fawr.

Agor y Clo

Nos Sadwrn, Hydref 24, roedd rhaglen Newydd ar S4C, sef Agor y Clo. Rhaglen ddifyr dros ben yn ymwneud â hanes mewn gwahanol rannau o Gymru gyda Manon Ellis yn cyflwyno. Braf iawn oedd gweld Eirwen a Wynne, Tyddyn Dicwm, yn sôn am y grât lechen gerfiedig hynafol sydd yn eu cartref. Yn wreiddiol roedd y grât yn yr hen gartref teuluol yn Bryn Twrw, Tregarth ond pan symudodd y teulu i Dyddyn Dicwm daethant â'r grât lechen hefo nhw. Mae'n arbennig iawn gan fod arni gerfiadau o'r planedau a hynny yn gywraint ac yn fanwl iawn.

Capel Shiloh, Tregarth

Buom yn lwcus iawn medru ailagor drysau Capel Shiloh am bum Sul yn olynol cyn cau am gyfnod eto oherwydd y Clo Mawr Cenedlaethol. Diolch o galon i Eric Jones, Bangor, Ellie Jones, Coed y Parc, Richard Gillion, Ffon Rowlinson am drefnu gwasanaethau byr ar gyfer y gynulleidfa ac i amryw o'r aelodau am baratoi Gwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 18. Ni wyddom eto pryd y bydd cyfle i ddod at ein gilydd ond bydd arwydd ar yr hysbysfwrdd o flaen y capel

a cheisiwn gysylltu hefo chi i gyd.

Bu farw un o'n haelodau ffyddlonaf yn frawychus o sydyn, sef Helen Matilda Jones, yn ei chartref 28 Ffordd Ffrydlas, Bethesda, ar Hydref 13. Roedd Helen yn un o hen deulu Cerrig Llwydion oedd gyda chysylltiad teuluol agos ers blynyddoedd lawer gyda Chapel Shiloh. Roedd yn briod gyda'r diweddar Elfed ac yn fam i Bethan. Anfonwn ein cydymdeimlad gyda Bethan a'r teulu a ffrindiau. Bu'r angladd yn Amlwgfa Bangor ar Hydref 23.

"Rhif Pedwar, os gwelwch yn dda."

"Ga i ddeg o stampiau Cymreig plis?"

"Mae'n ddrwg gen i, does dim gennym ni."

Mae'n fflapio'r clawr y ffeil stampiau sy'n llawn o stampiau Seisnig.

"Dwi ddim yn eich credu chi."

Mae hi yn dal tudalen o stampiau yn portreadu James Bond a'i gar.

"Dyma'r stampiau dosbarth cyntaf."

"Dwi isio stampiau dosbarth cyntaf Cymreig."

"Mae nhw yn y 'safe'."

"Wel ewch i'w nôl nhw."

"Mae o wedi'i gloi."

"Agorwch y 'safe'."

"Fedra i ddim. Mi fyddai'n rhaid nôl y rheolwr."

"Ewch i'w nôl."

"Bydd rhaid i chi aros am hanner awr iddo ei agor."

"lawn. Mi nai aros."

"Wnewch chi gamu'n ôl o'r cownter?"

"Na wnaf. Rwyf am aros yma tra fyddwch yn nôl y rheolwr i agos y 'safe'."

Mae gan y cwsmer gydymdeimlad â rhywun sydd wedi gweithio yn W H Smiths drwy'r dydd, ond mae'n benderfynol o ddal ei thir. Mae nhw'n syllu ar eu gilydd nes i'r clerc godi ac mae arolygydd benywaidd yn dod at ochr y cwsmer a chlerc gwrywaidd yn ymddangos y tu ôl i'r sgrîn.

"Peidiwch â gweddi."

"Dwi ddim yn gweiddi."

Mae yna wydr chwarter modfedd rhwng y cwsmer, sydd yn gwisgo gorchudd wyneb a'r stampiau.

"Os na wnewch chi stopio gweiddi, chewch chi ddim gwasanaeth yma."

"Dwi'n gofyn yn gwrtais am stampiau Cymreig mewn swyddfa bost yng Nghymru."

"Does neb isio nhw. Does neb byth yn eu prynu. Mae'n rhaid i chi lyfu nhw."

"Dwi'n hoffi eu llyfu nhw."

"Rydach chi'n rhwystro'r ciw."

"Dwi'n aros i gael stampiau." *Mae'r clerc gwrywaidd yn symud i safle'r clerc blaenorol sydd i mynd o'r golwg.*

"Fedrwn ni ddim eu gwerthu oherwydd Covid 19."

"Dach chi ddim o ddifrif?"

"Dydy o ddim yn iach ichi lyfu nhw."

"Dwi'n hoffi llyfu'r stampiau, dyna'r peth g orau am stampiau Cymreig."

Daw'r clerc cyntaf i'r golwg efo tudalen o stampiau Cymreig dosbarth cyntaf.

"Ro'n i'n meddwl bod rhaid cael rheolwr ac aros am hanner awr."

"Roedd rhain yn yr ystafell stoc."

Mae'r cwsmer yn cymharu stampiau mawr Saesnig James Bond a'i gar, â stampiau Cymreig hardd ac urddasol, ac yn dyblu'r archeb.

"Ugain stamp plis"

Lindsay Hutchinson o Felin Fawr, Coed y Parc, Bethesda

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

Ysbyty

Eto bu sawl un yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Da deall eich bod yn gwella, ac anfonwn ein cofion cynnes atoch i gyd. Cofiwch adael i'r Llais wybod am rai sydd wedi gorfod mynd i ysbyty. Dyma'r rhai a ddaeth i'n sylw yn ddiweddar: Eirian Owen, Stryd Ogwen; Janet Jones, Erw Las; Glenys Rowlands, Adwy'r Nant.

Priodas Aur

Ar 10 Hydref dathlodd Dennis a Ceri Dart, Rhos y Nant, 50 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Emyr a Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain unwaith eto.

Cydymdeimlo

Unwaith eto 'rydym yn anfon ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:-

Sioned Llewelyn a'r teulu, Pant Glas, Wedi colli ei thad, Mr. Robert Emlyn Jones, Bontnewydd, ar 1 Hydref.

Teulu y diweddar Mr. Alaw Williams, Bangor, a fu farw ar 4 Hydref, sef Geraint a Cai, Abercaseg.

Teulu y diweddar Anwen Roberts, Braichmelyn, a fu farw yn 45 oed.

Mrs. Cathy Owen a'r teulu, Lôn Newydd. Wedi colli mab a brawd annwyl yn 32 oed, sef Alun Glyn Owen.

Elfed Jackson a'r teulu, Braich Tŷ Du, Nant Ffrancon. Wedi colli ewythr yn Llanrwst, sef y diweddar Mr. Robert Emlyn Jackson.

Marwolaethau

Alun Glyn Owen

Yn sydyn, trwy ddamwain, bu farw Mr. Alun Glyn Owen (Al Bonc) o 7 Glanogwen yn 32 mlwydd oed. Priod annwyl a chariadus Ceri, a thad hoffus a gofalus Anni a Cêt. Mab Mrs. Cathy Owen a'r diweddar Mr. Iolo Owen, brawd annwyl i Gethyn, Mei, Robin a Lowri, a mab yng nghyfraith i Richard Ogwen a Rhian Jones. 'Roedd Al yn berson poblogaidd iawn ac yn uchel ei barch gan ei gyd-weithwyr. 'Roedd yn aelod gweithgar o Glwb Rygbi Bethesda.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 21 Hydref, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu hiraeth.

Llewelyn Davies

Yn Ysbyty Gwynedd ar 8 Hydref, bu farw Mr. Llewelyn Davies, Tryfan, Ffordd Coetmor, yn 77 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs. Marianne Davies, tad hoffus Paula a Vince, llysdad Dafydd a thaid i Gareth a Mathew. Bu ei angladd yn Amlogsgfa Bangor ddydd Gwener, 16 Hydref, gyda'r Parchedig Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Helen Matilda Jones

Yn dawel yn ei chartref, 28 Ffordd Ffrydlas, bu farw Mrs. Helen Matilda Jones yn 81 oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Elfed Jones, a mam annwyl a gofalus Bethan.

Bu'r angladd yn Amlogsgfa Bangor, ddydd Gwener, 23 Hydref, gyda'r Parchedig Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Bethan.

Gair o ddiolch

Dymuna Gavin, Sophie a Thomas, priod a phlant y ddiweddar Mrs. Vivien Parry, 10 Rhos y Coed, ddiolch yn fawr iawn i aelodau'r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Vivien. Diolch am

yr holl gardiau, llythyrau ac ymweliadau, ac am y rhoddion hael er cof amdani sydd wedi eu rhannu rhwng Marie Curie a'r "Special Palliative Care Nurses". Diolch hefyd i'r Parchedig Ddr. Hugh John Hughes am ei wasanaeth ddydd yr angladd. Yn olaf, diolch i Mr. Iolo Owen yr ymgymerwr, o gwmni Roberts & Owen, Penygroes, am ei ofal caredig ac am yr holl drefniadau trylwyr a pharchus.

Diolchiadau

Yn dilyn marwolaeth sydyn Eira Hughes, 29 Ffordd Ffrydlas, ar 22 Chwefror eleni, dymuna Joe, Angharad a Joshua ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am bob cymorth a charedigrwydd yn ystod eu profedigaeth o golli Eira. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau, ymweliadau personol a galwadau ffôn, ac am yr holl roddion hael er cof amdani tuag at waith Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Cyfanswm anrhydeddus iawn o £3,953.00.

Diolch i'n gweinidog, y Parchedig D. John Pritchard, y Parchedig Geraint Hughes, y Parchedig Dafydd Coetmor Williams a'r Parchedig Geraint Roberts am eu gwasanaeth yn Amlogsgfa Bangor a Mynwent Pentir. Diolch hefyd i'r organyddes, Mrs. Christine Edwards.

Diolch i Glwb Rygbi Bethesda am y croeso ac i Gaffi Coed y Brenin am y lluniaeth ardderchog. Diolch hefyd i Mr. Gareth Williams a Gwenan am drefnu'r angladd mor dawel a pharchus.

Cyfarchion Nadolig

Ni fydd John a Gwen, Tanysgrafell, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond maent yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Diolch

Diolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod fy arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Bu'n gyfnod pryderus ar y dechrau ond mae fy niolch yn fawr i'r meddygon a'r nyrsus - yn enwedig Ward Moelwyn - am eu gofal arbennig. Jan Jones, Erw Las.

Eglwys Crist, Glanogwen

Braf oedd cael cynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn ystod mis Hydref, a phleser oedd croesawu aelodau eglwysi eraill y dyffryn. Mae'r Clo diweddaraf yn ein gwahardd rhag cynnal y gwasanaeth oeddem wedi gobeithio ei gynnal ar Sul y Cofio, ond os y bydd y rheolau'n caniatáu, bydd y gwasanaeth nesaf ar Sul Adfent, sef Tachwedd 29, am 11 y bore, ac eto, mae croeso cynnes i bawb i ymuno â ni.

Mae sawl teulu yn y gymuned wedi colli anwyliad dros y misoedd diwethaf, ac rydym fel eglwys yn anfon ein cydymdeimlad diffuant a'n cofion cynhesaf atoch oll.

Fel arfer, cadwch yn iach, a chofiwch os oes rhywun yn unig neu am gael sgwrs, mae croeso i chi roi caniad i Glenys ar 600371 neu Barbara ar 600530.

Yr Eglwys Unedig

Cyfarchion

Unwaith eto, anfonwn ein cofion gorau at y rhai sydd mewn gwendid, yn unig, mewn profedigaeth ac yn galaru ar ôl anwyliad. 'Rydym yn meddwl amdanoch i gyd, ac yn gobeithio y daw 'haul ar fryn' i chi cyn hir.

Ail-agor y Capel

Testun gofid, siom a phryder mawr i ni yw nad yw'r Capel ar agor ar hyn o bryd. Hoffem bwysleisio mai nid **gwrthod**

agor yr ydym, ond yn hytrach dilyn rheolau llym y Cyfundeb ynglŷn â iechyd a diogelwch ein haelodau a'r gymuned yn gyffredinol. Mae trefniadau ar droed gennym i sicrhau bod asesiad risg llawn a glanhau proffesiynol trylwyr yn cael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf yma, ynghyd â gwaith cynnal a chadw angenrheidiol. Ein gobaith yw cael ail-agor yn fuan ac yn ddiogel wedyn ar gyfer ein gweithgareddau.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Cymdeithas dda – 2

Yn ystod y misoedd diwethaf, fel sawl un arall mae'n debyg, treuliais beth amser yn rhoi trefn ar domennydd o bapurau o bob math ynghyd ag ugeiniau o lyfrau oedd yn bentyrrou anhrefnus ar draws y lle. Wrth gwrs, fel y gŵyr sawl un ohonoch sydd wedi cael y clwy 'clirio', mae'r cyfan yn dod i ben – dros dro, beth bynnag – pan ddaw rhywbeth diddorol i'r golwg nad yw wedi gweld golau dydd ers tro byd. A dyna a ddigwyddodd i mi tua diwedd mis Hydref. Doedd y deunydd ddim yn hen o gwbl ond roedd y cynnwys yn ddadlennol a

phwysig.

Dechreuaf yn y dechrau ac mae hynny'n mynd â fi'n ôl rai blynyddoedd pan gefais wahoddiad i fynd i weld Miss Margaret Jane Evans a oedd ar fin symud o'i chartref yn Nglanrafon, Y Gerlan, i Gartref Preswyl yn yr ardal. Ei thad hi a'i diweddar chwaer, Sarah (Sally) Mary, oedd David D. Evans (a'r D. yn canol hefyd yn fyr am 'David!'). Ar y gŵr hwn y seiliodd Caradog Prichard y cymeriad 'Defi Difas Snowdon View' yn ei nofel fawr, *Un Nos Ola Leuad*. Bûm yn ddigon ffodus

i gael sawl sgwrs efo Dafydd Ifans (fel y gelwid ef yn lleol) yn ystod y cyfnod pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn treulio fy Sadyrnau a'm gwyliau yn danfon bara a chacennau i gartrefi'r ardal a'r tu hwnt efo Wili Eric o'i fecws yn y Gerlan. Roedd Dafydd Ifans yn un o'r cwsmeriaid a phrin y gallwn anghofio ei fod yn cael chwech o fara bach ar ddyddiau Mercher a Sadwrn ac roedd yn rhaid i'r rheini fod wedi eu crasnes yr oedd y crystyn dros bob torth yn frown tywyll a chaled fel concrit. Gan amlaf, byddai'r bara 'duon' yn ei blesio i'r dim ac ar adegau felly, caem sgwrs ddiifyr a hynny fel arfer yn codi o'i ddiddordeb mewn hanes lleol a minnau'n dechrau ymddiddori yn yr un maes yr adeg honno. Ac roedd Miss Margaret Evans yn cofio hynny ac roedd am i mi gael rhai o'r deunyddiau yr oedd ei thad wedi eu casglu dros y blynyddoedd a hithau wedi eu cadw'n ofalus ar ôl colli'i thad. Pan oeddwn ar fin gadael,

tynnodd Miss Evans fy sylw at fag wrth ymyl y drws. 'Dyna sy'n ddigalon,' meddai, 'nad oes digon o le yn y Cartref i mi fynd â phopeth efo fi ac mi fydd yn rhai i mi ga'l gwared ag ambell beth, fel y petha' sydd yn y bag 'na.' 'Gobeithio na fyddwch yn gorfod gwared â dim byd o bwys,' meddwn inna'. 'Wel, hen ddyddiaduron fy nhad ydi'r rhan fwyaf o'r petha' yn'o fo, nad ydyn nhw'n dda i ddim i mi bellach ...' ac ar hynny, dyma hi'n ychwanegu: 'Ylwch, os ydyn nhw o ddiddordeb i chi, cerwch â nhw efo chi.' Ac felly y bu. Gadewais gyda dyddiaduron yr hen Dafydd Ifans, yn cynnwys manylion yn ei lawysgrifen glir s dealladwy, am eni, priodi a marw nifer helaeth o'i gydnabod yn Nyffryn Ogwen, yn ogystal â deunydd a daflai oleuni ar ddigwyddiadau diddorol yn yr ardal am gyfnod yn ymestyn dros hanner can mlynedd. Yn rhifyn nesaf *Llais Ogwan*, byddaf yn cynnwys rhai o'r cofnodion a godais o ddyddiaduron Dafydd Ifans.

Urdd Gobaith Cymru

Annwyl ddarlennwyr, Fel y gwyrddoch, mae Urdd Gobaith Cymru yn wynebu sefyllfa argyfyngus o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac mae dyfodol y mudiad yn un bregus.

Mae'r Urdd yn fudiad unigryw ac, ers 1922, rydym wedi cyflawni llawer wrth gynnig profiadau Chwaraeon, leuencid, Celfyddydol, Preswyl, Prentisiaethau, Dyngarol a Gwirfoddoli i fwy na phedair miliwn o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro wedi eu galluogi i gyfrannu'n bositif i'w cymunedau, ymestyn eu gorwelion a chynyddu eu hunan hyder. Rydym wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i ymfalchio yn eu gwlad, eu hiaith a'u diwylliant ac yn agored i'r byd a'i werthoedd.

Ond, wrth i brif ffynonellau incwm y mudiad wynebu colledion, sef ein gwersylloedd ar gau i breswylwyr a chyfyngiadau enfawr ar ein gwasanaethau cymunedol, rydym yn rhagweld

toriadau incwm o £14 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf a dyled sylweddol, o leiaf £3.5miliwn. Mae'n wir i ddweud y gall y ffigyrau yma gynyddu wrth i sefyllfa Covid barhau. Mae'r mudiad hefyd wedi colli hanner ei weithlu o 320 o bobl o ganlyniad i'r toriadau, ac mae'r her yn un na wynebodd y mudiad ei thebyg o'r blaen.

Rydym wedi bod yn agored a gonest ers y dechrau am yr effaith ar y mudiad a'n pryderon am y dyfodol. Rydym hefyd yn trafod yn gyson gyda'n rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru, ac yn ddiolchgar am y cyllid argyfwng tymor byr a dderbyniom hyd yn hyn.

Ond, mae'r her ariannol yn un enfawr, fel yr ydym wedi bod yn ategu mewn sgwrsiau a chyfweliadau ar y cyfryngau. O ganlyniad, daeth llawer o geisiadau am sut y gall pobl ein helpu trwy'r cyfnod anodd hwn, i sicrhau dyfodol i brif fudiad plant a phobl ifanc Cymru. Mae

unrhyw gyfraniad, bach neu fawr, yn hynod bwysig i ni ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Felly hoffem rannu gyda'ch darlennwyr yr amrywiol ffyrdd o gefnogi:

- **I blant a phobl Ifanc** - Os ydych o dan 26, yna ymaelodi yw'r ffordd orau o gefnogi. Dim ond £9 am flwyddyn, neu £25 am aelodaeth teulu a chewch fanteisio ar yr ystod o weithgareddau sydd ar gael, gan gynnwys arlwy digidol amrywiol a chynhwysfawr.
- **I Oedolion** - Mae ffordd hawdd o gyfrannu trwy'r wefan (urdd.cymru), neu gallwch anfon cyfraniad trwy siec. Byddem yn hynod ddiolchgar petaech yn ei gwneud yn daladwy i **Urdd Gobaith Cymru** a'i hanfon at:

Iwan Tudur Jones
Adran Gyllid Urdd Gobaith Cymru
Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Llanuwchllyn, Y Bala

Gwynedd LL23 7ST

Am bob cyfraniad o fwy nag £20, byddwn yn anfon bathodyn arbennig aelodaeth yr Urdd 20-21 fel cydnabyddiaeth, felly cofwch gynnwys eich cyfeiriad.

Ein haelodau yw ein blaenoriaeth bob amser a byddwn yn parhau i weithredu o fewn ein gallu i sicrhau cyfleoedd amrywiol, cyfoethog a chyfoes i blant a phobl ifanc Cymru. Mewn dwy flynedd, bydd yr Urdd yn dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Rydym yn hyderus y gallwn, gyda help ein cefnogwyr a'r holl ewylllys da sydd tuag at y mudiad arbennig yma, oroesi'r cyfnod anodd hwn ac ail-adeiladu'r mudiad ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Gan ddiolch o waelod calon am yr holl gefnogaeth.

Cofon gorau, Sian Lewis

Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru

Mari Williams
Rheolwr Cyfathrebu
Communications Manager
Urdd Gobaith Cymru

Ysgol Llandygai

Croeso'n ôl

Yn dilyn cyfnod heriol iawn dros y misoedd diwethaf, braf oedd croesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol yn ogystal â'r 10 disgybl newydd sydd wedi ymuno a ni yn y Meithrin a disgyblion eraill sydd wedi trosglwyddo atom. Rydym yn hynod o falch o'ch gweld ac yn edrych ymlaen yn arw at flwyddyn arall o gydweithio hapus.

Hoffwn estyn ein diolch hefyd i'n rhieni a theulu ehangach yr ysgol am eich cydweithrediad parhaus a'ch cefnogaeth yn ystod y cyfnod yma.

Prif Ddisgyblion

Daeth yr amser unwaith eto 'leni i bennu prif ddisgyblion yr ysgol ar gyfer y flwyddyn. Yn dilyn y gwaith caled o baratoi eu manifestos, cafodd pob dosbarth gyfle i wyllo fideos o'r disgyblion yn cyflwyno cyn mynd ati i bleidleisio.

Hoffwn longyfarch y disgyblion canlynol am eu llwyddiant; Hari a Freddy fel ein Prif Fechgyn a Rebecca, Romilly a Lauren fel ein Prif enethod. Rydym yn falch iawn ohonoch ac yn edrych ymlaen i weld eich syniadau am ddatblygu'r ysgol yn dod yn fyw.



Penodiadau

Hoffwn fel ysgol estyn croeso i Mr Rhys ab Elwyn sydd yn ymuno â ni fel athro yn yr adran Iau am gyfnod estynedig ac i Miss Ffion Eaton sydd hefyd yn ymuno gyda ni fel athrawes Mamolaeth yn yr adran Iau. Maent wedi setlo mewn i fywyd yr ysgol ac yn gaffaeliad mawr i'r tîm. Croeso cynnes atom!

Hefyd estynnwn groeso cynnes i Miss Jenny Alty sydd newydd ymuno â ni yn ddiweddar fel cymhorthydd i gefnogi disgyblion o ddisbarthiadau amrywiol. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Ffarwelio

Cyn y gwyliau Haf bu i ni ffarwelio a Miss Lois Morris sydd wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r staff acw ers nifer o flynyddoedd bellach. Rydym yn diolch iddi am ei gwaith caled wrth gefnogi'r disgyblion ac yn dymuno pob lwc iddi yn ei swydd newydd.


Yn ogystal â ffarwelio a Miss Lois rydym hefyd yn ffarwelio â Miss Mair Bebb, ysgrifenyddes yr ysgol gan ddiolch o galon iddi am ei hymroddiad i'r ysgol. Pob dymuniad da iddi yn ei menter nesaf. Bydd colled fawr ar eich olau. Dymuniadau gorau i chi'ch dwy.

Wythnos Lles

'Bake-off' Llandygai Dosbarth Awel

Bu disgyblion dosbarth Awel yn brysur cyn yr hanner tymor fel rhan o'n weithgareddau wythnos lles yn pobi bisgedi. Cawsant gyfle i ddysgu'r cyfarwyddiadau ar ffurf Pie Corbett yn ogystal ag actio'r cyflwyniad allan o flaen green screen.

Roedd y bisgedi yn hynod o flasus a llwyddiannus! Da iawn chi pobwyr ddisbarth Awel!



Ymweliad Castell Penrhyn

Bu disgyblion dosbarth Gwawr, Awel, Hedd a Tirion yn ffodus iawn cyn yr hanner tymor i fanteisio ar y cyfle i fynd am dro Hydrefol i Gastell Penrhyn.

Buom yn lwcus hefo'r tywydd a chafodd y disgyblion foreau bendigedig yn edrych ar liwiau Hydrefol yng

ngerddi'r Castell yn ogystal â thaith o amgylch tir y Castell yn archwilio.

Aeth dosbarthiadau amrywiol ati wedyn i ddefnyddio'i sbardun o'u taith i ysgrifennu cerddi natur a gwrando ar gerddoriaeth Vivaldi ac ymateb drwy ddawns i'r Tymhorau.

Smwddis dosbarth Tirion

Cafodd disgyblion dosbarth Tirion fwynhad mawr o greu smwddis eu hunain. Roeddent yn flasus iawn.

Dosbarth Gwawr - Bwyd i'r adar

Roedd adar ym mherllan yr ysgol yn ddiolchgar iawn i ddisgyblion dosbarth Gwawr. Buont yn brysur yn paratoi peli bwyd ar gyfer yr adar. Roedd y bwyd i gyd wedi mynd yn dilyn dychwelyd ar ôl hanner tymor.

Dosbarth Enfys

Ar ddechrau'r wythnos lles, aeth disgyblion Derbyn dosbarth Enfys am dro o amgylch pentref Llandygai i ddod o hyd i gliwiau'r Hydref. Mae gerddi a byd natur bendigedig o'n cwmpas a chafodd y disgyblion gyfleoedd i weld blodau, dail, adar a chlywed y gwynt a'r adar yn y coed.

Criced

Mae disgyblion yr adran Iau wedi bod yn ffodus yn ystod tymor yr Hydref wrth iddynt dderbyn gwersi Criced gan 'Criced Cymru'. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Steve am ei broffesiynoldeb wrth arwain y disgyblion yn y gwersi hwyliog o dan amgylchiadau heriol. Mae'r disgyblion oll yn eu mwynhau ac wedi datblygu sgiliau taflu, batio a bowllo.

Ysgol Llanllechid



Taith Moel Faban o Abergwyngregyn

Yng nghanol y cyfnod Covid, sy'n llusgo'n ddi-ildio yn ei flaen, beth allai fod yn well i'r enaid, na cherdded gyda disgyblion hynaf, aeddfed ein hysgol, ar hyd hen lwybr y pererinion, uwchben Traeth Lafan, a rhyfeddu at y golygfeydd godidog! Dyma brofi bryniau melynion y Carneddau ar eu gorau, ac er fod y tywydd yn anwadal, roedd hi'n wefr cael troedio'r llechweddau, a chyrraedd copa Moel Faban! Erbyn hynny, roedd yr wybren yn ddi-gwmwl, a Mynydd Twr Caergybi i'w weld yn glir yn y pellter. Yn gefndir mawreddog i'r cyfan oll, oedd cadernid yr Elen, Carnedd Llywelyn, yr Ysgolion Duon a Charnedd Dafydd. Gwelsom Gwmpenllafar a'i heddwch

di-ystwr'; y darn barddoniaeth sydd wedi ei hoelio ar gôf a chadw'r disgyblion. Dyma beth yw addysg; dysgu am yr holl enwau a'r cyfoeth sydd wrth eu traed...fel y cedwir i'r oesoedd a ddel y glendid a fu!

Braint yn wir! Pawb ohonom yn teimlo'n ddiogel o dan arweiniad Mr Stephen Jones, cwmni Anelu, a oedd yn llawn gwybodaeth a ffeithiau diddorol. Diwrnod i'w gofio!

Braf hefyd yw dysgu am y Carneddau drwy'r fideo gan Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, a'n Lloer Prysor ni yn serenu ynddo!

Diolch

Llawer iawn o ddiolch i deulu'r diweddar Caryl

Jones am eu rhodd garedig i Ysgol Llanllechid i gofio am wraig arbennig iawn. Mae gennym i gyd atgofion melys am Caryl, ac anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad dwys at y teulu a'r ffrindiau i gyd. Mawr ddiolch.

Cofion

Anfonwn ein cofion at Mr Alick Macdonald a dymunwn wellhad buan iddo, Cofio at Mrs Macdonald hefyd.

Croeso'n ôl

Croeso cynnes yn ôl i Anti Gillian ac i Mr Ady i'r tîm glanhau. Braf eich cael yn ol yma hefo ni! Diolch I mr Gavin am ei holl waith da diweddar.



Diolch am y Pecynau Prysur

Llawer o ddiolch i Huw o Bartneriaeth Ogwen a ddaeth draw i'n gweld yn cludo rhoddion i rai o'n disgyblion. Fe'u dosbarthwyd i ddisgyblion dosbarth Ms Gwenlli Haf ac roeddent wrth eu boddau - a'r Nadolig wedi cyrraedd yn fuan! Diolch o galon!

Pentir

Cynrig a Carys Hughes
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
☎ 01248 601318
carys16@hotmail.com

Ffenestri Adfent

Mae criw o ardalywyr wedi penderfynu trefnu 'Calendr Adfent Byw' yn y dyddiau sy'n arwain i'r Nadolig. Golyga hyn bod tai yn Rhyd-y-Groes a Phentir wedi cytuno i addurno eu ffenestri, gyda'r ffenestr gyntaf yn cael ei goleuo a'i harddangos ar 1af Rhagfyr.

Bydd ffenestr newydd yn ymuno â'r cynllun pob noson, fel yn y diwedd bydd pob ffenestr wedi ei goleuo erbyn noswyl Nadolig. Dewch am dro i weld yr arddangosfa Nadoligaidd a disglair yma!

Tafarn y Faenol

Mae criw bychan o'r pentrefwyr yn ymchwilio mewn i'r posibilrwydd o geisio cadw'r dafarn ar agor fel menter gymunedol. Mae holiadur wedi ei ddsbarthu er mwyn cael barn y cyhoedd.

Calendr Llais Ogwan 2021

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2021 wedi ei ryddhau er gwaethaf yr anawsterau oherwydd Covid-19. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a ddewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Richard Alwyn Jones a Gwasg Ffrancan am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon i werthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan

mai ef sy'n gyfrifol am ddsbarthu a gwerthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr Ar werth am £4 eto eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Coed Y Brenin, Rhes Buddug, Bethesda
- Post Rachub
- Caffi Moelyci
- Llys Y Gwynt (Siop SPAR)
- Siop Na-nog, Y Maes, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy



Dathlu cariad sy'n adeiladu gobaith yn ystod yr Adfent

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

Wel am flwyddyn a hanner! Rydach chi fel finnau'n ysu am weld cefn 2020 rwy'n siŵr. Ond er mor anodd y bu'r flwyddyn hon, mae gennym le i ddiolch a dathlu hefyd. Dathlwn y ffaith fod cymunedau Cymru wedi bod yn gefn i sawl aelod bregus wrth iddynt orfod hunan ynysu dros gyfnod y clo mawr. Dathlwn fod cariad cymdogol wedi bod yn fendith ddigymar mewn cyfnod o ofn.

Yn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol eleni, rydym am bwysleisio'r cariad hwn sy'n adeiladu gobaith yng nghanol byd o dywyllwch. Cofiw'n am un a ddaeth i droi'r byd a'i ben i waered – nid trwy fygwth na chodi ofn, ond trwy garu heb gyfrif y gost iddo'i hun. A dyna'n union y cariad sy wedi ei amlygu yn ein plith ni eleni! Diolch i Dduw amdano.



Mekonnen a'i wartheg. Hawlfraint: Cymorth Cristnogol/ Elizabeth Dalziel.

Yr argyfwng hinsawdd yn Ethiopia

I gymunedau eraill yn ein byd, her ar ben sawl her arall a fu'r Coronafirws. Dyna gymunedau yn Ethiopia, er enghraifft, sy'n dioddef yn enbyd gan effeithiau'r argyfwng hinsawdd. Mae bugeiliaid teithiol fel Mekonnen yn gorfod cerdded milltiroedd

maith i chwilio am ddŵr i'w wartheg. Pan gyrhaedda afon a arferai lifo'n gryf, yr hyn a wêl yw gwely sych. Rhaid cloddio, felly, er mwyn cyrraedd y dŵr, a gall hynny fod yn fenter hynod beryglus.

Gyda help partner Cymorth Cristnogol, fodd bynnag, mae cymunedau wedi derbyn

cefnogaeth i adeiladu pyllau cymunedol yn eu pentrefi. Golyga'r pyllau hyn nad oes raid i'r trigolion gerdded am oriau i nôl dŵr. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywyd pobl.

Trwy eich cefnogaeth chi, gallwn greu mwy o'r pyllau hyn a helpu cymunedau eraill i oroesi yn wyneb her fawr yr argyfwng hinsawdd. Ewch draw i'n gwefan i weld sut y gallech chi helpu: www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christmas-appeal

Carol Adfent newydd Ymunwch gyda ni i ganu carol newydd ar Sul Cyntaf yr Adfent – 29 Tachwedd – 'Pan aned gynt mewn tloidi' – a dilynwch ein cadwyn weddi pob dydd trwy'r cyfnod.

Er bod eleni wedi bod yn llawn braw ac ofn, ni fu heb resymau i'w dathlu. Unwn i ddiolch am y cariad sy'n adeiladu gobaith, eleni fel ag erioed.

CHWILAIR

LLEFYDD YN NYFFRYN OGWEN

G	E	R	L	A	N	A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V
B	G	L	A	N	F	F	R	Y	D	L	A	S	H	X	J	U	I	C	S
V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	A
D	D	N	A	P	L	L	A	N	L	L	E	C	H	I	D	A	U	R	Q
U	S	O	D	F	A	R	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	N	N
O	Y	R	I	I	B	A	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	R	E	H
C	Q	H	N	W	E	E	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	E	D	P
T	T	C	A	B	R	B	C	U	U	J	P	L	T	M	I	T	V	D	V
D	C	B	S	B	C	F	R	F	O	G	J	V	I	I	N	R	O	I	R
X	I	M	H	T	A	T	N	O	S	K	O	P	W	A	R	C	R	M	K
C	B	O	R	C	S	R	X	V	R	Y	H	S	N	T	M	R	M	E	F
Y	J	D	Z	H	E	B	C	W	O	S	C	Y	R	A	I	X	Y	N	I
L	X	J	J	W	G	M	B	B	W	T	N	E	X	M	D	X	G	K	F
U	P	C	R	Q	Y	O	U	I	L	E	F	E	R	Z	Q	R	N	O	C
T	D	E	G	W	S	H	L	Z	A	E	B	E	A	J	K	J	A	C	L
N	A	L	R	V	C	O	G	L	J	B	R	O	N	Y	D	D	F	P	W
C	P	G	S	A	O	W	B	J	J	Q	U	L	F	S	V	T	I	X	E
U	G	B	R	A	I	C	H	M	E	L	Y	N	H	S	L	Z	E	E	A
F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	A	I	K
O	G	D	H	B	S	I	U	R	O	X	A	G	X	R	A	E	C	E	K

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDEG LLE YN NYFFRYN OGWEN i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW. Dyma atebion Hydref:- Amana; Bethel Tŷ'n y Maes; Bethesda; Brynteg; Carneddi; Gerlan; Hermon; Jerusalem; Nant y Benglog; Peniel; Saron; Siloam.

Ar y teledu



Yn ystod yr Hydref gwelwyd Gerallt Jones o Fethesda, ddwywaith ar S4C. Y tro cyntaf ar y rhaglen **Am Dro**, lle roedd yn arwain tri o gerddwyr eraill yn ardal Bethesda. Yna yr ail dro ar y rhaglen Chwedloni lle roedd yn rhan o ddathlu Mis Hanes Pobl Dduon. Darlithydd yw Gerallt yng Ngoleg Menai, lle mae'n helpu'r myfyrwyr

i gael profiad gwaith. Mae hefyd yn cynnal dosbarthiadau "Martial Arts" yn y pentre ac yn arwain grwpiau ar weithgareddau yn yr awyr agored. Mae yn fab i Olwen Jones a'r diweddar Rolant Wyn Jones, cyn-darlithwyr yn y Coleg Normal. Bu Rolant yn arwain Côr y Penrhyn am gyfnod.



JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NE
 ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
 07770 568743 (symudol)



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
 Atgyweirio MOT
 Gwasanaethu Cerbydau
 Cydbwyso Teiars
 Batris
 Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
 www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
 Gwynedd LL57 4AY



Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

Ar ôl darllen am benodiad Mrs Menai Williams yn arweinydd y côr yn 1970, yn dilyn ymddeoliad Mr Ffrancon Thomas, trown rŵan at y rhifyn sy'n rhoi hanes penodi Mr James Griffiths o Waen Wen, Glasinfryn yn gyfeilydd newydd i'r côr yn yr un flwyddyn. Roedd Mr Griffiths yn athro yn Ysgol Llanfairfechan ar y pryd ac




yn organydd cynorthwyol yn y Gadeirlan ym Mangor. Fel y dywedir yn y cyflwyniad i'r erthygl gan y diweddar Caeron Roberts, "Ef hefyd yw'r Dirprwy Arweinydd gyda Miss Alwena Hughes, Bangor yn ddirprwy gyfeilydd."

Llundain Y cyngerdd cyntaf i'r côr gyda Mrs Menai Williams oedd i gynrychiolwyr yr Undeb Siarad Saesneg a'r rheiny yn dod o bob rhan o Brydain. Rhoddwyd datganiad gan y côr a'r unawdwyr, a hefyd gan Mrs Williams ar y delyn. Cododd llywydd yr Undeb, Lady Heald, ar y diwedd a rhoi gwahoddiad i'r côr gael byrbryd ym mhencadlys yr Undeb yn Dartmouth House, Llundain pan fyddem yn y brifddinas ar gyfer Gŵyl y Mil o Leisiau yn Neuadd Albert ar

Hydref 18, 1970. Corau o Ogledd Cymru oedd yn cymryd rhan yn yr ŵyl honno ac roedd llawer o waith dysgu ar y darnau ond llwyddwyd i'w meistrolu. Profiad bythgofiadwy oedd canu dan arweiniad Roy Bohana o flaen torf enfawr o wyth mil fel y cytuna'r holl aelodau dwi'n siŵr. Cafwyd gwledd o ganu ac ar ddiwedd y cyngerdd cyflwynwyd holl arweinyddion y corau i'r gynulleidfa. Cytganau o'r operâu oedd amryw o'r darnau – **O Isis and Osiris, Speed your Journey, The Anvil Chorus** a darnau fel **Battle Hymn of the Republic** ac yn y Gymraeg canwyd **Llanfair, Tydi a Roddaist, Ar Hyd y Nos, Llef a Myfanwy**. Arhosodd y côr yn Llundain dros y penwythnos a chafwyd amser difyr a phleserus. Digwyddodd amryw o bethau

doniol ond gwell yw peidio sôn dim ond am un digwyddiad. Yr hogiau'n cyrraedd yn ôl i'r gwesty ar y nos Sadwrn a phawb yn hwylio am eu gwelyau ac yn eu pyjamas. Aeth un aelod i roi ei ddillad yn drefnus wrth ochr ei wely ond yn methu'n glir a chael hyd i'w drôns bach. Troi pob man drosodd a chanfod yn y diwedd ei fod wedi ei adael amdano o dan ei byjamas.

Canmoliaeth Cystadlwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1971 a daeth y côr yn drydydd allan o chwech o gorau. Roedd yn bleser gweld Mr Ffrancon Thomas a Mrs Ceridwen Lloyd Davies yn eistedd yn y seddau blaen yn gwrando'n eiddgar a mawr oedd eu canmoliaeth i'r côr ar ôl y gystadleuaeth.



Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Barri Davies sy'n byw yn Rachub.

- Be' ydy dy enw llawn?**
Barri Wyn Davies
- Oed? 49**
- Gwaith** Cerddor hunangyflogedig.
- Lle wyt ti'n byw?** Rachub.
- Un o le wyt ti'n wreiddiol?**
Maesgeirchen.
- Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Hoffi cael hwyl a jôc, dwi'n gyfeillgar a hefyd dwi'n gerddorol.
- Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?**
Tua un mlynedd ar ddeg.
- Pa lais wyt ti?** Ail denor.
- Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** I helpu i gadw'r traddodiad i fynd ac er mwyn y pleser o ganu hefo grŵp anhygoel.
- Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Mae hynny'n anodd i'w ateb gan fod yna gymaint ohonyn nhw ond mae "Anfonaf Angel" yn bendant yn

uchel ar fy rhestr.

- Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?**
Does gen i ddim ffefryn ond dwi'n hoff iawn o Andy Williams a Shirley Bassey.
- Beth ydy dy farn di am ganu pop?**
Dwi'n hoffi cerddoriaeth pop.
- Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Roedd y teithiau i America a Norwy yn wych ynghyd â'r cyfle i allu perfformio yn Glastonbury.
- Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n hoffi ysgrifennu a recordio caneuon fy hun, rydw i hefyd yn hoffi darllen ac mae gen i angerdd am wersyllfa hefyd.
- Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Mae'r Côr yn iawn fel y mae ac yn ymdrin ag amrywiaeth o genres cerddorol.
- Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Gobeithio bod pawb yn cadw'n ddiogel yn ystod yr amser anffodus hwn ac yn gobeithio y bydd y Côr yn aildechrau cyn gynted â phosibl.



Geiriau Hapus

Wrth wrando ar y newyddion ar y teledu neu'r radio, neu ddarllen y papurau newydd, yr ydym yn ddyddiol yn dod ar draws geiriau sy'n disgrifio'r pethau negatiff mewn bywyd. Clywir llawer yn rhy aml geiriau megis damwain, llofruddiaeth, ymosodiad, terfysgaeth, ffrwydrad, hiliaeth, difrod, ac yn y blaen. Rhaid wrth eiriau o'r fath i ddisgrifio a chofnodi beth sy'n digwydd yn y byd – dyna yw swyddogaeth iaith, sef bod yn gyfrwng i ni gyfathrebu'n effeithiol – ac i wneud hynny rhaid adrodd y da a'r drwg.

Yr oedd hoff grys t gan fy merch pan yn blentyn bach – un glas ydoedd a llun gwên fawr ar y tu blaen, ac ar y cefn 'roedd aralleiriad lliwgar o gofnod mewn geiriadur (er nid GPC!): –

Hapus: bodlon, dedwydd, llon, bendigedig, wrth fy modd.

Roedd y crys t yn drawiadol ac yn tynnu sylw. Mi fyddai pobl yn ymateb iddo gan ddweud ei fod yn hyfryd, ac wedi rhoi gwên ar eu hwyneb. Disgrifiad y gair yn meithrin y teimlad. Mae gan eiriau bŵer.

Felly gyda'r bwriad o godi calon, dyma gip olwg ysgafala (ysgafn) ar rai o'r geiriau mwy anarferol yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru sy'n cyfleu neu ddisgrifio hapusrwydd neu

lawenydd.

Rwy'n gobeithio eich bod yn darllen hwn ar wiwdymp, sef ar adeg ffafriol, a'i fod yn rhoi heulfodd (pleser gwych) i chi ddarganfod y geiriau. Rhaid dweud mai hapuswaith oedd chwilio'r fath eiriau, yn peri i mi ganu llwyddwawd (cân hapus) wrth weithio. Rydych yn hyffawd (ffodus) nad oedd modd i chi fy nghlywed! Gobeithio cewch fwynhau hydref diaele (diofal) a chynedwydd (dedwydd) yng nghwmni cyfeillion breulon (hynaws). Byddwch wastadwyn (hapus yn barhaus) a ffrwlton (llon eich gwedd). Ac os oes gennych gi, gobeithio ei fod yn gynffonlon!

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn drysordy o eiriau o'r fath – porwch ynddo i ddarganfod y perlau. Rhowch wybod os oes gennych ar lafar unrhyw air diddorol am lawenydd neu hapusrwydd sydd heb ei gofnodi yno. Medrwich gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

Geiriadur Prifysgol Cymru,
Canolfan Uwchfeyrdiaid
Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell
Genedlaethol Cymru,
Aberystwyth, Ceredigion,
SY23 3HH

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor gwaith Plaid Lafur Arfon ar ddechrau mis Hydref (gyda chynrychiolaeth o Ddyffryn Ogwen), yn bennaf i ddechrau'r broses o ddewis ymgeisydd Arfon ar gyfer etholiadau Senedd Cymru fis Mai nesaf-gyda'r cyfarfod dewis ar ddechrau mis Rhagfyr. Da oedd clywed taw Andy Short (Cadeirydd Plaid Lafur Ynys Môn), sy'n gefnogol iawn i'r Gymraeg, yw'r ail ar restr Y

Blaid Lafur ar gyfer pedair sedd rhanbarthol Gogledd Cymru.

Da hefyd oedd clywed bod Llywodraeth Lafur Senedd Cymru'n dal i roi sylw i bethau ar wahân i Covid-19 e.e. bod nifer y bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd wedi haneru ers 2008, bydd cynghorau sirol yn cael defnyddio pryniant gorfodol ar gyfer tai gwag ac y bydd gwaharddiad ar ysmegu mewn caeau chwarae a chaeau ysgol.

Trysorau Coll Caradog Prichard

- cyfrol newydd J. Elwyn Hughes

Dyma gyfrol ardderchog sy'n goron ddiameduol ar lafur Dr J. Elwyn Hughes ar fywyd a gwaith Caradog Prichard. Fel y gŵyr llawer yn barod, roedd Caradog Prichard wedi'i eni a'i fagu ym Methesda. Enillodd dair Coron a Chadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn ogystal ag ysgrifennu nofel bwysig, sef *Un Nos Ola Leuad*, a ddyfarnwyd 'y nofel Gymraeg orau a ysgrifennwyd erioed' ac sy'n dal i fod ar faes llafur Safon A ysgolion Cymru.

Mae *Trysorau Coll*

Caradog Prichard wedi'i hysgrifennu'n llythrig drwyddi draw a'r arddull yn lân a chyhyrog yn ôl teithi puraf yr iaith Gymraeg.

Rhennir y gyfrol yn dair rhan; yn y rhan gyntaf, cynhwysir yr ohebiaeth at Garadog oddi wrth ei ddau frawd, Howell a Glyn, ac oddi wrth ei fam o'r Seilam yn Ninbych. Pennod ddiddorol yw'r ail yn yr adran hon, sef 'Caradog y Bardd'. Dyddiadur Caradog rhwng 1963 a Chwefror 1980 yw'r deunydd yn y bedwaredd bennod lle ceir golwg ar fywyd mewnol y bardd a'r llenor.

Yn yr ail ran, y fwyaf a'r bwysicaf, cynhwysir yr ohebiaeth at Garadog oddi wrth ei gyfeillion a'i gydnabod rhwng 1926 a 1946. Ceir ynddynt gip ar y bywyd creadigol dros gyfnod o bron ugain mlynedd. Ceir yma llythyrau oddi wrth W. J. Gruffydd, John Eilian, Thomas Parry, E. Prosser Rhys, a Kate Roberts, ymhlith eraill. Yr hyn a'm trawodd yng ngohebiaeth Thomas Parry yw'r modd yr oedd o a Charadog yn ymarfer eu dawn fel beirdd drwy sgwennu cywyddau at ei gilydd.

Yn y drydedd ran, a'r olaf, ceir llythyrau Caradog at ei wraig, Mattie, rhwng 1944 a 1946, pan oedd Caradog yn yr India.

Mae 50 o luniau yn y gyfrol sy'n cyfoethogi'r cyfanwaith. Ar y diwedd, ceir Nodiadau, Llyfryddiaeth a Mynegai.

Mae yn y gyfrol gyfoethog hon saig bleserus yn aros llengarwyr y fro hon a'r tu hwnt. Rydym yn ddyledus iawn i Elwyn am ei lafur yn casglu at ei gilydd bopeth sy'n wreiddiol ar Garadog Prichard ac y mae'r gyfrol yn ychwanegiad dadlennol at yr ymdriniaethau sydd gennym yn barod ar y llenor a'r bardd.

Dyma englyn i Garadog Prichard a ysbrydolwyd wrth i mi ddarllen y gyfrol:

Caradog Prichard


O'i ing y ddi ei angerdd – y teimlad

Oedd teml ei alargerdd;

O ddwys awen y pencerdd

A gwae'i gur ganed y gerdd.

Goronwy Wyn Owen



Ysgol Abercaseg a Penybryn

Gardd yr ysgol

Mae ychydig o blant blwyddyn 2 wedi bod yn andros o brysur yn ddiweddar yn gweithio ar wella gardd ysgol Abercaseg. Roedd Mr Mike Goldthorp (neu Mr Meic fel y gelwid gan y plant!) wedi dod i helpu a'u dysgu ychydig am arddio. Cafodd y plant y cyfle i ddefnyddio offer garddio ar gyfer chwynnu, plannu ffa a hefyd wedi cael cychwyn dysgu ychydig am gompostio. Mi fydd Mr Meic yn ôl yn rheolaidd ar ôl yr hanner tymor fel bod gweddill plant blwyddyn 2 yn cael cyfle i weithio ar yr ardd. Rydym yn edrych ymlaen at weld y datblygiadau fel mae'r flwyddyn yn mynd yn ei flaen.

Bydd disgyblion Pen-y-bryn yn dathlu Wythnos Eco yn fuan wedi hanner tymor ac yn gweithio gyda Mr Meic ar gyfer creu 'fferm lysiau' ar dir Abercaseg – enghraifft arall o'r ddau safle yn gweithio'n agos ac effeithiol fel un sefydliad addysgol er lles plant Bethesda.



Disco diwedd hanner tymor

Yn dilyn cyfnod mor hir adref a hanner tymor cyntaf prysur yn ôl yn yr ysgol, yn sicr roedd pob plentyn yn haeddu ychydig o hwyl. Felly ar ddydd lau olaf yr hanner tymor cafodd pob dosbarth eu disco eu hunain ac ychydig o gemau a chystadlaethau. Roedd yr ysgol yn gynnwrf i gyd a phawb wedi bod wrth eu boddau yn dawnsio, chwerthin a chystadlu. Da iawn pawb am weithio mor galed yn eich dosbarthiadau newydd.

Babi newydd

Llongyfarchiadau mawr iawn i Miss Hannah Burton ar enedigaeth ei mab. Mae pawb yn yr ysgol yn dymuno'n dda iddi yn ystod y cyfnod arbennig hwn ac yn gobeithio y gwneith hi fwynhau pob eiliad adref hefo Elis bach.

Adeilad Pen-y-bryn

Wel wir, mae'r adeilad yn ddigon o sioe yn dilyn gwariant sylweddol gan yr Awdurdod Lleol, yr ysgol a chyfraniad hael gan Gyfeillion yr ysgol yn ogystal!

Mae'r gwaith yn cynnwys iard tarmac newydd, ail-rendro tu allan i'r adeilad mewn lliwiau arbennig, ffenestri newydd, addurno a pheintio tu mewn yr ysgol a bleinds modern a phwrpasol yn y dosbarthiadau. Gwych!

Bydd gwaith pellach i adnewyddu nenfwd y llawr cyntaf yn mynd rhagddi yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym oll yn credu bod plant Pen-y-bryn ac Abercaseg yn haeddu cael addysg mewn awyrgylch braf a phwrpasol, ac yn wir rydym yn llwyddo i gyrraedd ein nod.

Mae staff a llywodraethwyr Pen-y-bryn ac Abercaseg am weld ysgol liwgar a modern sy'n parchu ei hanes a'i diwylliant, ond sydd yn symud ymlaen yn bwylllog ond penderfynol tuag at ragoriaeth, i baratoi'r disgyblion ar gyfer eu dyfodol fel dinasyddion.

Colled

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Ceri, Anni a Cwt a'r teulu estynedig yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl ag Alun. Bydd staff a holl gymuned yr ysgol yn gefn i'r ddwy fach a'r teulu yn ystod y cyfnod anodd sydd i ddod.

Ac yn olaf...neges fach hapus!

Braf oedd darllen ar dudalen 'Pesda Positif' ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar, hanes un o drigolion Pesda yn adrodd sgwrs roedd hi'n ei gael gyda thair merch dosbarth Elidir yn y parc. Roeddynt yn sgwrsio'n llawn brwdfrydedd am ei syniadau mentergarwch er mwyn codi arian



Diolch

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Tesco am gyfraniad arbennig o lwyth o wahanol adnoddau diddorol i'r ysgol, sticeri, paent, dillad gwisg ffansi a llawer iawn mwy i gadw'r holl blant yn brysur.

i elusennau lleol drwy warchod a cherdded cwn i ffrindiau a theulu. Cafwyd y tair hefyd eu gweld yn tacluso'r parc.

Da iawn wir genod am ddangos parch at ein cymuned.



Croesair Tachwedd 2020

AR DRAWS

- 1 Troedio (4)
- 3 Pum cant, un a mil yn swm go dda i'r hen Rufeiniaid, ond yn llai nag ychydig i'r hen Gymry (3)
- 8 Y môr ar ei anterth (7)
- 9 Cyff neu frigyn trwchus (5)
- 10 William Morgan, ond nid yr un efo'r defaid barus (5)
- 11 Yn agos ond yn flêr mae'r fro, ac yn drwsgl iawn (7)
- 12 Un deg pump o gŵn Cymreig (6,5)
- 17 Cyfarfod i drafod (7)
- 19 Mae y gwas yn cymysgu dŵr ac aeron bach duon i wneud gwin (5)
- 21 Athletwraig a chyflwynydd rhaglenni ar S4C yw Ms Morgan (5)
- 22 Pig i mewn yn fusneslyd (7)
- 23 Tymheredd canol lloeren efallai (3)
- 24 Mewn cam i'r iawn gyfeiriad mae hwyl a sbort i'w gael (4)

I LAWR

- 1 Dwy linell o farddoniaeth (6)
- 2 Hon sy'n amgen gyfforddus i law oer (5)
- 3 Er mor fregus, rhown esgid i'n brawd o Fangor (7)
- 4 Tafod, meddwl neu gyllell i mi gnoi cil arno (6)
- 5 Rhywbeth sy'n atgas gennych (6)
- 6 Rhai sy'n driw a ffyddlon i'w cenedl yn ôl ein hanthem (11)
- 7 Mae'n gwneud afon yn gegog! (4)
- 13 Monwysion (7)
- 14 Chwilio yn y ddôl gam am rywun i'w ddilyn yn ei swydd (6)
- 15 Ymbil yn daer (6)
- 16 Dangos fod bwyd yn wydn a hen ynghanol lli (6)
- 18 Coch, gwyn neu binc lliw rhosyn. lechyd da! (4)
- 20 Eden a Gethsemane (5)

1		2							3		4
				5		6		7			
8								9			
10						11					
	12	13						14			
15											16
17				18				19		20	
21						22					
23									24		

Gair o Eglurhad

Mae'r misoedd wedi hedfan heibio ers i'r Croesair diwethaf ymddangos yn y 'Llais', ac un neu ddau yn gweld ei golli. Felly fe benderfynwyd ailafael ynddi, Ond yn anffodus mae pryderon ac ansicrwydd y cyfnod presennol yn dal i fodoli, felly ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er

lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'ngaredig **i beidio** ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas !! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddifri unwaith eto.



Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

williams@parliament.uk

gair neu ddau

John Pritchard

CYD-DESTUN

Term da ydi ffôn clyfar'. Mae'n dweud y cyfan am y ddyfais fach ryfeddol sydd ym meddiant cynifer ohonom erbyn hyn. Ymhlith llu o bethau eraill mae'n anfon penawdau newyddion ataf bob hyn a hyn. Ran amlaf, eu hanwybyddu a wnaif, ond mi sylwais ar un neges y dydd o'r blaen. Roedd y pennawd mor drawiadol: 'People will blame Boris Johnson, God of Chaos'. Roedd hwn yn ddisgrifiad o Brif Weinidog San Steffan nas gwelais cyn hynny! Ond yna mi sylwais mai penawdau dwy stori wedi eu gwasgu at ei gilydd ar sgrin y ffôn oedd y geiriau: y naill yn dweud y bydd pobl yn beio Mr Johnson os na sicrhair cytundeb masnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, a'r llall yn awgrymu y gallai asteroid (a enwyd 'Aphophis' ar ôl duw Anrhefn yr hen Eifftiaid) daro'r Ddaear yn y flwyddyn 2068.

Mor rhwydd oedd camddeall trwy dynnu darnau o benawdau'r ddwy stori allan o'u cyd-destun. Mae bob amser yn beryg dyfynnu geiriau pobl o'u cyd-destun. Mae'n rhwydd gwneud cam â phobl trwy wneud hynny gan fod modd camliwio'r geiriau a rhoi iddynt ystyr wahanol i'r hyn sydd ynddynt yn eu cyd-destun gwreiddiol. Nid gwleidyddion yn unig sy'n dioddef yr annhegwch hwnnw; gall geiriau pawb ohonom fagu ystyr wahanol o'u cymryd allan o'u cyd-destun cywir. O glywed fod hwn a hwn neu hon a hon wedi dweud rhywbeth, doeth bob amser yw sicrhau ein bod yn deall pryd a pham, neu ym mha gyd-destun y dywedwyd y geiriau.

Mi allwn gamddeall neges y Beibl os na ddarllenwn y cyfan yn ei gyd-destun. Y mae i'r Beibl ei gyd-destun hanesyddol a diwylliannol a llenyddol, ac mae'n rhaid cofio hynny wrth geisio deall ei neges. Mae yna bob math o lyfrau ac adnoddau i'n helpu i wneud hynny: mwy nag erioed o'r blaen wrth reswm. A diolch am hynny.

Ond mae yna rywbeth mwy sylfaenol fyth nad oes raid i ni wrth yr un llyfr nac adnodd i'n helpu i'w wneud. Un o'r pethau symlaf a phwysicaf y medrwn ei wneud yw darllen pob adnod a darn o'r Beibl o fewn eu cyd-destun yn y bennod y maent ynddi. Nid oes o reidrwydd angen gwybodaeth arbenigol o gefndir gwahanol lyfrau'r Beibl er mwyn gwneud hynny. Mater syml ydyw o ddarllen y geiriau fel y bwriadwyd i ni eu gweld a'u clywed, yng nghyd-destun rhyw ddigwyddiad neu rywbeth arall a ddywedir. Y mae gwerth i ddyfynnu adnodau o'r Beibl, a thros y blynyddoedd rhoddwyd gwerth ar ddysgu adnodau ar y cof. Mae llawer o'r adnodau a ddysgwyd yn gymorth mawr wrth eu dwyn i gof. Ond buddiol bob amser ydi gweld yr adnodau hynny yn eu cyd-destun priodol, rhag i ni eu camddeall a'u cam-gymhwyso.

Nyth y Gân

Y Lloer

Mae lleuad dros y wlad lom, – a'i golwg

Yn gwyllo'n syn arnom,
A boed ei llewyrch tra bôm
Yn rasol ofal drosom.



Moel Faban

Dacw hi'n las fel palas pur, – y gaer

Ar y gorwel eglur;
Draw ymhell wrth odre'i mur
Gwŷdd a meysydd cymesur.

Y Dderwen

Di-bryder ydyw'r dderwen, – ac erys

Yn gawraidd ei changen;
O ddawn praff gwreiddyn y pren,
Angor mewn stormydd angen.

Gardd

Mae mwy i ardd na harddwch, – dihafal

Dyfiant a thynnerwch;
Y gwerth yn ei phrydferthwch
Yw'r lliw a gyfyd o'r llwch.

Yr Hydref

Syrth ei fes o gynnes gôl, – a'i liwiau

Sy'n loyw a hudol;
Ar aden muda'r wennol,
Ond yn ei nwyf daw hi'n ôl.

Pïod

Adar anfri yw'r pïod, – y bradwyr

Â'u bryd ar ymosod;
Yn daer mae'r lleiddiaid yn dod
A thrannoeth noeth yw'r nythod.

Goronwy Wyn Owen



Cwmp y Dail

Y goeden farwaidd fwriddod

Ei dail yn araf bach,
Ar ôl i'r erwau oeri
Nid oedd yr un yn iach.

Am hir rhyw hiraeth heriol
Ddaeth drosom wrth ei throed
Wrth wyllo cwmpiad campus
Yr hydref fel erioed.

Gwyntoedd â'u drysu dreisiodd
Y rhelyw oedd ar ôl,
A swrth a chlaf o'r syrthio
Fu'r llu ar lawr y ddôl.

Y dail ddaw atom eto
Gan ddilyn tywydd mwyn;
Y gwanwyn ddaw â'r geni
A llenwi llawer llwyn.

Ymochel

Oer gysur am hir gawsom o glywed

Y glaw'n cau amdanom;
Yno'n drist, a'r awr yn drom,
Rhyw angen deimlwyd rhyngom.

Y Gân

Sawl cerdd a ddaw o'n gerddi, a gwrandawn

Cans llawn fydd y llwyni
O loniant eto 'leni
A gawsom 'nôl atom ni.

Cardotyn

Y dyn hynod ei hanes, yn edrych

Gan adrodd ei neges
O'i encil gyda'i hances
Ar lawr yn begera'i les.

Dafydd Morris

Pum Croes Filwrol

gan Andre Lomozik

Dyma fel mae'r Groes Filwrol yn cael ei disgrifo:-


"The Military Cross is the third-level military decoration awarded to officers and other ranks of the British Armed Forces, and formally awarded to officers of the Commonwealth countries". Dyfarnwyd y fedal am y tro cyntaf yn 1915.

Yn Llyfr Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai gan William Parry (Llechid) a Robert Parry (Trebor Llechid), mae Robert Parry yn 'Pennod y Milwyr' yn nodi enwau'r bechgyn a laddwyd o ardal Dyffryn Ogwen yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn ogystal a rhai a fu yn gwasanaethu yn y Rhyfel, o wahanol enwadau'r capeli ac eglwysi'r cylch. Yn eu plith mae'n enwi tri a dderbyniodd y Groes Filwrol, sef Oscar Stanley Hughes, Glanogwen School House, Alfred Williams, Glanogwen Cottage, (**Arthur L. Parry**) a'r Parchedig Arthur William Davies, gweinidog Wesleiaidd yn eglwys Siloam, Bethesda.

OSCAR STANLEY HUGHES

Ganwyd Oscar Stanley Hughes, yn fab i Thomas Herbert a Charlotte Hughes, yn y flwyddyn 1886. 'Roedd ei dad yn ysgolfeistr ar ysgol bechgyn Glanogwen, ac yng nghyfrifiad 1901 'roedd y teulu yn byw yn Glanogwen School House. 'Roedd Thomas Herbert yn enedigol o Lanfairfechan, a'i wraig o Birmingham.

Yng nghyfrifiad 1891 'roedd y teulu yn cynnwys pump o blant, sef Mary Jane, yn 19 ml. oed, ac wedi ei geni yng Nghaergybi. 'Roedd hi wedi ei nodi fel "pupil teacher" ar y cyfrifiad. Yna daeth Thomas H. yn 15 ml. oed ac yn yr ysgol. Charlotte oedd nesaf yn 13 oed, ac yna ddau o fechgyn, Bevan Waterton yn 9 oed ac Oscar Stanley Hughes yn 5 oed.



'Roeddynt i gyd yn ddwyieithog yn ôl y cyfrifiad.

Mae nifer o adroddiadau am Oscar yn y papurau, a chawn y ddau adroddiad yma amdano, un yn ymddangos yn Y Llan, Medi 28, 1917, t.2 :-

GWROLDEB MILWR – Da gennym ddeall fod Cadben Oscar Stanley Hughes, mab Mr a Mrs T. H. Hughes, School House wedi ennill y groes filwrol am ei wroldeb amlwg ac ymroddiad i ddyledswydd yn ystod gwrthymosodiad y gelyn. Er bod dan "shells" ddwywaith a'i glwyfo yn dost yn ystod tân-beleniad ofnadwy, gwrthododd adael ei adran, ond glynodd yn ddewr wrthynt, gan eu calonogi o dan amgylchiadau dychrynlyd, trwy ei

wrhydri ysblennydd a'i ddewrder. Da gennym ddeall fod Capt. Hughes yn gwella o'i glwyfau yn rhagorol. W.H.R.

A'r llall yn y North Wales Chronicle & Advertiser for the Principality, Ebrill, 19, 1918, t.4:-

MILITARY NEWS – Captain Oscar Stanley Hughes, son of Mr. & Mrs. T Herbert Hughes, Glanogwen School House, was among those who were presented with the Military Cross on Saturday last, by the King at Buckingham Palace. His Majesty shook hands with him, and warmly congratulated him.

Mewn adroddiad arall mae yn sôn ei fod wedi ei gladdu dan bridd ddwywaith yn ystod yr ymosodiad.

Ar yr 28^{ain} o Rhagfyr 1917, cynhaliwyd cyfarfod yn Glanogwen Church House, gan gymdeithas y C.E.M.S. Mae'r adroddiad yma yn sôn am gyflwyno Capten O. S. Hughes gydag anrheg fel gwerthfawrogiad y gymdeithas o'i anrhydeddu gyda'r Groes Filwrol, am ei ddewrder yn ystod y rhyfel yn Ffrainc ym mis Mehefin. Yn absenoldeb y cadeirydd, y Parch. R.

Rhys Hughes, fe gymerodd Benjamin Thomas, y gadair. Fe siaradodd yn uchel am wasanaeth cyffredinol a milwrol y Capten. Anerchodd y Parch. D. Thomas, B.A., y gynulleidfa gydag adroddiad swyddogol am wobrwyo'r Capten. Yna ar ran y gymdeithas daeth Mrs. W. R. Lloyd ymlaen i gyflwyno'r Capten gydag anrheg o 'silver cigarette case and cigar holder'. Diolchodd Capten Hughes i'r gymdeithas, a dywedodd ei fod wedi ceisio cynnal ei ddyletswyddau gore y gallai, a gobeithiai y gallai ddal ymlaen i wneud hynny.

Ar ran y teulu diolchodd ei dad T. Herbert Hughes i'r gymdeithas, a dywedodd ei fod wedi gweld llawer o newidiadau yn hanes

Bethesda yn y 45 mlynedd yr oedd y teulu wedi treulio yma, ond fod caredigrwydd ei thrigolion yn parhau yr un a phan ddaeth i'r ardal gyntaf. Diolchwyd hefyd i'r Ysgrifenydd, Mr. W. Thomas, Elfed Terrace, a'r Trysorydd, Mr Richard Hughes, Gwynfa, am drefnu cyfarfod mor lwyddiannus.

Mae Robert Parry (Trebor Llechid) yn enwi Alfred Williams fel un arall a enillodd y Groes Filwrol, ond mae'n ymddangos mai camgymeriad yw hyn, gan ei fod wedi ysgrifennu erthygl yn Y Drych dyddiedig Tachwedd 14, 1918, t.7 yn enwi Arthur L. Parry, fel y bachgen a enillodd y fedal.

ARTHUR L. PARRY

Mae hyn yn cyd-fynd a chyfrifiad 1911, gan mai Arthur L. Parry oedd yn byw yn Glanogwen Cottage, gyda'i deulu, sef John W. Parry, y tad yn 61 oed, ei fam Charlotte yn 60 oed, a'i frawd William Parry yn 23 oed. 'Roedd Arthur yn 17 ml. oed. Dyma'r adroddiad o'r Drych:- **NODION O BETHESDA, ARFON**, gan **TREBOR LLECHID**. Anrhegu Milwr, sef Arthur L. Parry, Glanogwen Cottages, ar ôl treulio tua blwyddyn a hanner yn Ffrainc. Y mae efe yn un o'r ychydig filwyr yn yr ardal sydd wedi ennill y Fedal Filwrol am wrhydri ar faes y frwydr, ac mae yn ddiamau fod pawb yn barod i'w longyfarch am ei wroldeb. Yn Ysgol Sul Glanogwen cyflwynwyd iddo logell llyfr hardd, a fountain pen gostus gan nifer o'i gyfeillion yn yr Ysgol Sul. Cyflwynwyd yr anrhegion iddo gan y Parch. R. R. Hughes, a siaradwyd gan Mr. T. Herbert Hughes, cyn ysgolfeistr y lle, yn ogystal a W. Thomas, Elfed Terrace, a Benjamin Thomas, Llys Meurig.

Parhad o t22

Y TRYDYDD PERSON A ENWYD yn Llyfr Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai gan William Parry (Llechidon) a Robert Parry (Trebor Llechid) oedd:-

A. W. DAVIES

Y Parch A. W. Davies (Arthur William Davies). Ganwyd ef yn 1871 yn Chesterton, Staffordshire. Dora Catherine (Owen) oedd ei wraig ac 'roedd hi yn 29 mlwydd oed yng nghyfrifiad 1911. 'Roedd pedwar o blant ganddynt, ond dim ond tri sydd yn cael eu henwi yn y cyfrifiad, sef Hugh Owen yn 7 oed, wedi ei eni yng Nghonwy, Arthur Francis yn 5 oed, Brymbo, a Mary Gwendoline yn 5 mis oed, Llangollen. Daeth y teulu i fyw i Fethesda yn 1914, pan sefydlwyd y Parch A. W. Davies, yng nghylchdaith Gogledd Cymru (Bangor, Bethesda) gyda'r Westleaid. Fe ymunodd a'r fyddin fel caplan yn 1916, a dyma fel mae Y Dinesydd Cymreig, Mawrth 15, 1916, t.5 yn adrodd ei hanes:-

Y MADAWIAD Y PARCH A. W. DAVIES, BETHESDA

Fel y datganwyd yn ein nodion o Fethesda yr wythnos ddiweddfaf, y mae'r Parch. Arthur William Davies, gweinidog Westleidd Siloam, Bethesda, wedi cael ei benodi yn gaplan i'r Gatrawd Gymreig, ac i fyned i Mesopotamia. Nos lau cynhaliwyd cyfarfod ymadawol iddo yn Siloam, dan nawdd Cyngor yr Eglwys Rhyddion, ac fel cydnabyddiaeth iddo am ei wasanaeth gwerthfawr i'r ardal cyflwynwyd iddo bwrs o aur. Daeth amryw o eglwys Westleidd y gylchdaith â rhoddion teilwng i'w rhoddi yn y pwrs. Teimlir colled anarferol ar ôl Mr. Davies yn y cylch hwn, gan mor ymarferol ac eang oedd ei wasanaeth iddo. Yr oedd ei dŷ fel swyddfa gyhoeddus yn cael ei lanw gan bobl yn dyfod i ofyn am help ac i lanw "Forms" ynglŷn â'r rhyfel. Ysgrifennodd gannoedd o lythyrau dros bobl, a helpodd gannoedd o deuluoedd mewn argyfyngau pwysig. Yr oedd yn ŵr cymdeithasgar heb ei ail, a'i galon garedig yn agored a pharod bob amser i gynorthwyo a rhoddi help llaw i'r rhai fo'n galw arno. Pregethodd gyda chymeradwyaeth

mawr ar y gylchdaith am yn agos i ddwy flynedd, a theimlir chwithdod yn y pulpud ar ei ôl. Cychwynnodd am Mesopotamia ddydd Mawrth, ac fe gymer iddo o fis i bum wythnos cyn cyrraedd ohono ei gatrawd ym Mesopotamia. Bu yn gweini ar y gatrawd hon, hynny yw, lawer ohoni, pan yr oedd yn gweinidogaethu yn y Rhyf, ac aeth yn ddwfn i'w serchiadau. Caria ddymuniadau goreu a gweddïau yr ardal oll gydag ef. Bydded i nawdd y nef fod drosto, a'i ddwyn yn ôl yn fuan, fuan.

Cawn adroddiad arall amdano yn Yr Herald Cymraeg, Mehefin 19, 1917, t. 2:-

Ennill Y Groes Filwrol - Am wrhydri ar faes y gwaed yr enilliodd y Caplan Arthur W. Davies, cyn-weinidog y Westleaid, y Groes Filwrol a'r anrhydedd sy'n perthyn iddi. Gyda'r fyddin sydd yn ceisio ymlid a gorchfygu'r Tyrciaid rhyfelgar o wlad Canaan y mae Mr. Davies ers rhagor na blwyddyn, a diau y bydd yn dda gan yr ardalwyr a'i gyfeillion glywed am ei lwyddiant a'i aberth gyda'r bechgyn ymhell o'u broydd genedigol.

Yn y London Gazette Awst 14, 1917, cawn y canlynol:- Rev. Arthur William Davies, Temp. C.F. (Chaplin to the Forces) 4th Class attd. Welsh R. For conspicuous gallantry and devotion to duty. He displayed the greatest courage and devotion in organising the stretcher-bearers, and collecting and attending to the wounded at great personal risk under heavy shell and machine-gun fire.

Mae adroddiad am ei dychweliad i'r ardal yn ymddangos yn Yr Herald Gymraeg, Gorffennaf 22, 1919, t.6:-

CYRRAEDD GARTREF - Wedi gwasanaethu fel caplan am dros dair blynedd gyda'r fyddin cyrhaeddodd y Parch Arthur W. Davies, Siloam gartref ddydd lau. Ym Mhalestina gyda'r milwyr y bu Mr. Davies, ac enilliodd y Groes Filwrol. Drwg gan yr oll o'r ardalwyr fod ei dymor gweinidogaethu yn terfynu yma y mis nesaf ac na cheir llawer o'i wasanaeth yma fel gweinidog.

Diolch i Idris Lewis, Ffordd Bangor am gymorth i ddarganfod hanes Arthur W. Davies.

(I'w barhau yn rhifyn mis Rhagfyr)



Cadwyn Ogwen

Bydd rhai ohonoch sy'n defnyddio gwasanaeth siopa arlein Cadwyn Ogwen yn gyfarwydd iawn a wynebau Jan ac Alun wrth iddynt gludo neges i'ch drysau ar ddyddiau lau. Mae'r ddau wedi bod yn cynorthwyo gyda chynllun Cadwyn Ogwen ers y cychwyn a hoffai staff Partneriaeth Ogwen ddiolch iddynt am eu cyfraniad pwysig i lwyddiant y cynllun ers ei sefydlu yn ol ym mis Ebrill. Er na fydd Alun a Jan yn gwneud y danfoniadau wythnosol o hyn allan, mae nhw'n dal i gynorthwyo Lucinda gyda chynllunio danfoniadau a mae'n diolch yn fawr iddynt am bopeth mae nhw wedi ac yn parhau i'w wneud.

Er fod y cynllun yn cael ei arwain gan staff cyflogedig Partneriaeth Ogwen, ni fyddai Cadwyn Ogwen yn llwyddo heb gyfraniad gwirfoddolwyr a hoffem ddiolch hefyd i Elin Doyle, Beca Roberts a Lleucu Bryn sydd wedi bod yn helpu gyda gwaith pecynnau nwyddau yn achlysurol.

Mae cynllun Cadwyn Ogwen

yn mynd o nerth i nerth gyda danfoniadau i dros 1000 o aelwydydd wedi eu gwneud ers lawnsio'r cynllun ym Mis Ebrill 2020. Mae gwerth dros £25,000 o werthiannau wedi eu gwneud ers sefydlu'r cynllun a'r arian hwnnw i gyd yn aros a chylchdroi yn yr economi leol. Rydym yn gweld y cynllun fel ffordd o gefnogi busnesau lleol ac yn ddiweddar, rydym wedi cael cefnogaeth Zip World i'r gweithgareddau gyda'r cwmni yn menthyg fan drydan i'r fenter wneud danfoniadau bob dydd lau. Mae ysbyrd gydweithredol y cynllun yn mynd o nerth i nerth a mae hynny wedi ei gydnabod gan fudiadau cenedlaethol fel y DTA a Chanolfan Gydweithredol Cymru - gyda'r ddau fudiad yn enwebu Partneriaeth Ogwen am 'Restr Anrhydedd' Social Enterprise Futures 2020.

I brynu nwyddau gan gynhyrchwyr lleol a chefnogi'ch economi leol, ewch i www.ogwen.cymru/Cadwyn-Ogwen Diolch i bawb sydd wedi ein helpu ar hyd y daith.

